*This document is available in Welsh*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 12 RHAGFYR 2022 dros Zoom** am **14:00** o'r gloch.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid eu hystyried fel materion brys, yn ôl y Cadeirydd, yn y cyfarfod yn unol ag Adran 100B (4) y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2022**

5. **Materion yn Codi**

6. **Archwilio Cymru – Lleihau Larymau Tân**

7. **Adroddiad Bioamrywiaeth**

8. **Ymchwiliad Arena Manceinion – adroddiad ar lafar**

9. **Adolygiad Thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub i Hyfforddiant Gweithredol – adroddiad ar lafar**

10. **Y cynllun Cyber Essentials (CE) / Cyber Essentials+ (CE+)**

11. **Monitro Perfformiad 2022/23: Chwarter 1 a 2**

12. **Adolygu'r Amcanion Gwelliant a Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24**

13. **Cynllun ariannol tymor canolig a chyllideb 2023/24**

14. **Canolfan Hyfforddi newydd**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

## 15. Materion brys

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi'u nodi fel eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) y Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) ac sydd wedi'u nodi fel rhai pwysig o dan eitem 3 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu iddynt sydd wedi'i heithrio fel y'i difinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 16. Gweithredu Diwydiannol (ar lafar)

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Panel Gweithredol**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Gwener 29 Gorffennaf 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

**Yn bresennol**

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| D Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| K Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| C Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| R Triggs | Cyngor Gwynedd |
| P Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens ( Clerc); D Edwards (Trysorydd); S Forshaw (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead, ~ H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| A Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Selvester+ | Cyngor Sir y Fflint |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 CHWEFROR 2022

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 EHANGU RÔL DIFFODDWYR TÂN YNG NGHYMRU – CAPASITI'R GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB – ADOLYGIAD THEMATIG

6.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar yr Adolygiad Thematig o gapasiti'r Gwasanaethau Tân ac Achub i ymgymryd â rôl ehangach i ddiffoddwyr tân yng Nghymru. Cafodd yr adroddiad ei lunio gan Brif Ymgynghorydd Tân ac Achub Llywodraeth Cymru, Dan Stephens, a'i gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2021.

6.2 Cafodd yr Aelodau wybod fod y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, wedi rhoi gwybod i'r Senedd ym mis Mawrth 2021 am gynlluniau i ddatblygu rôl ehangach i ddiffoddwyr tân yng Nghymru, a hynny i gefnogi'r GIG yng Nghymru. Yna, roedd y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru wedi cynnal adolygiad thematig i roi sicrwydd bod y tri GTA yng Nghymru yn meddu ar y capasiti i wneud unrhyw waith ychwanegol yn deillio o ehangu rôl diffoddwyr tân heb amharu ar wasanaethau craidd. Cafodd canlyniad yr adolygiad ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

6.3 Yn ystod y chwe mis dilynol, cafwyd deialog barhaus rhwng y Prif Swyddogion Tân yng Nghymru a Swyddogion Llywodraeth Cymru. Ar 8 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog ar Gadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig erbyn 31 Awst 2022 ynghylch a oeddent yn derbyn canfyddiadau'r adolygiad a sut maent yn bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion. Roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud ag adolygu systemau shifftiau presennol, dadansoddi trefn gwaith ar orsafoedd, a hefyd ystyried cynyddu'r capasiti yn y system anfon allan.

6.4 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod yr un adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar fore'r 29 o Orffennaf, a'r consensws oedd cefnogi'r cysyniad o ehangu'r rôl ar yr amod na fyddai hynny'n effeithio ar y gwasanaethau craidd sy'n cael eu darparu gan ddiffoddwyr tân. O ran adolygu patrymau shifftiau, nododd yr Aelodau y bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnal fel rhan o'r Adolygiad o Ofal Tân sydd ar y gweill.

6.5 Dywedodd y Trysorydd fod yr Awdurdod yn wynebu cyfnod o drawsnewid, a gan ystyried bod chwyddiant ar ei lefel uchaf ers sawl blwyddyn bydd angen i'r Awdurdod ystyried effaith yr holl elfennau hyn ar gyllideb yr Awdurdod a bydd angen blaenoriaethu'n ofalus er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n parhau'n fforddiadwy a theg.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) bod "Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru, Adolygiad Thematig 2021 gan Brif Ymgynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru" wedi cael ei gyhoeddi**

**(ii) yr ohebiaeth wedi hynny gan y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac awdurdodi y dylai ymateb gael ei ysgrifennu gan y Cadeirydd, ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân, a'i anfon at y Dirprwy Weinidog erbyn 31 Awst 2022.**

7 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL 2021 – MAWRTH 2022

7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22; perfformiad o ran amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgarwch nodedig eraill o ran digwyddiadau.

7.2 Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi mynd at y canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22:

- 5,354 o ddigwyddiadau brys. Mae'r rhain wedi cynyddu 13.9% o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21. Mae'r cynnydd wedi digwydd yn rhannol oherwydd 56% o gynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at argyfyngau gwasanaethau arbennig nad oeddent yn danau (958).
- 399 o danau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd 34 o bobl fân anafiadau, cafodd pump o bobl anafiadau difrifol, a chollodd pump o bobl eu bywydau;
- 207 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, yn 71 o'r rheini roedd angen criwiau i ryddhau neu dorri pobl allan o gerbydau;
- 2,517 o alwadau diangen, a oedd yn cynnwys 15.2% o gynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at alwadau diangen o ganlyniad i systemau larwm tân awtomatig.

7.3 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Gwasanaeth hefyd wedi cynnal 14,062 o Archwiliadau Diogel ac Iach, sef 2,721 yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol (11,341).

7.4 Dywedodd y Cadeirydd mai da oedd nodi bod nifer y tanau yng Ngharchar Berwyn wedi gostwng o 47 i 22, ac ystyrid bod hyn wedi digwydd yn rhannol yn sgîl y gwaith partneriaethol rhwng y Gwasanaeth a'r carchar.

7.5 Gofynnodd yr Aelodau i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau'n ymwneud â'r amgylchedd, megis tanau awyr agored a llifogydd a digwyddiadau dŵr; byddai hyn yn gysylltiedig hefyd â gwaith yr Awdurdod ym maes cynaliadwyedd.

7.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

*This document is available in* English **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Lleihau Galwadau Diangen** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad thematig eleni sy'n cael ei gynnal gan Archwilio Cymru.

**ARGYMHELLIAD**

2 Bod Aelodau'n nodi:

(i) Pwrpas yr adolygiad;
(ii) Y prif gwestiynau y mae'r adolygiad yn ceisio'u hateb; a'r
(iii) amserlenni ar gyfer yr adolygiad.

**CEFNDIR**

3 Bydd yr adolygiad perfformiad ar gyfer 2022-23 o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhelir gan Archwilio Cymru, yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed i leihau ac atal galwadau tân diangen.

4 Cynhelir yr adolygiad i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adrannau 17 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae hefyd yn llywio archwiliad a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5 Mae galwad diangen yn cael ei ddiffinio fel digwyddiad lle mae criw tân ac achub yn mynychu digwyddiad gan gredu bod tân, ond yn darganfod ar ôl cyrraedd nad oes unrhyw achos o dân yno nac wedi bod yno.

6 Pwrpas yr adolygiad gan Archwilio Cymru, yw rhoi sicrwydd i bobl Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod bod digon o gynnydd yn cael ei wneud o ran lleihau galwadau diangen a'r costau sy'n gysylltiedig â nhw, yn bennaf mewn adeiladau annomestig (nid mewn tai neu gartrefi). Bydd hefyd yn nodi arferion da i weld buddion ehangach, fel lleihau allyriadau carbon.

**GWYBODAETH**

7 Ers 2009, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Tân ac Achub gofnodi'r digwyddiadau y maent yn eu mynychu drwy'r System Cofnodi Digwyddiadau ar-lein (IRS). Mae hyn yn cynnwys galwadau diangen, sy'n cael eu categoreiddio'n dri is-gategori:

- oherwydd cyfarpar - lle mae larwm neu offer diffodd tân yn actifadu mewn camgymeriad, gan gynnwys actifadu damweiniol gan bobl;
- bwriad da - lle mae person yn credu mewn ffydd dda bod angen y Gwasanaeth Tân ac Achub; a
- maleisus - lle mae person yn gwneud galwad bwriadol lle nad oes achos o dân.

8 I raddau helaeth, bydd yr adolygiad gan Archwilio Cymru yn cynnwys adolygiadau ar ddogfennau a chyfweliadau a bydd yn ceisio dod i benderfyniad a yw'r Awdurdod yn gwneud popeth yn ei allu i leihau'r achosion a'r ymatebion i alwadau diangen annomestig drwy nodi os:

- oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda o leoliadau, achosion ac effeithiau larymau tân mewn safleoedd annomestig;
- oes gan yr Awdurdod gynllun neu strategaeth glir a phriodol ar gyfer mynd i'r afael â galwadau diangen sy'n ystyried y risg a thystiolaeth addas;
- yw'r Awdurdod yn gwerthuso ac yn monitro perfformiad yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod larymau tân yn lleihau; ac
- os yw'r Awdurdod wedi lleihau faint o alwadau tân y mae'n ymateb iddynt mewn safle annomestig.

9 Bydd manteision arfaethedig yr adolygiad yn rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod strategaeth briodol ar waith i leihau galwadau diangen mewn adeiladau annomestig, bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau wrth ddefnyddio adnoddau ac yn rhoi cipolwg ar gyfleoedd i wella.

10 Disgwylir y bydd rhai o'r manteision a fydd yn codi wrth ymgymryd â'r adolygiad eisoes wedi'u gweld yng Ngogledd Cymru, ar ôl i'r Awdurdod gymeradwyo newid ym mhresenoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd (y Gwasanaeth) i alwadau diangen mewn safleoedd annomestig yn 2004.

11 Mae'r weithdrefn sydd ar waith yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd ar gyfer ymateb i alwadau tân yn nodi na fydd y Gwasanaeth yn ymateb i alwadau tân diangen mewn adeiladau annomestig oni bai bod tân wedi ei gadarnhau mewn galwad 999, gyda rhai adeiladau wedi ei heithrio o'r weithdrefn hon. Er bod y drefn hon wedi'i hadnewyddu yn ddiweddar, rhagwelir y gall fod cyfleoedd i fireinio'r weithdrefn ymhellach ar ôl gweld argymhellion yr adolygiad.

12 Mae amserlen arfaethedig yr adolygiad yn cychwyn o fis Gorffennaf 2022, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal i aelodau, staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau a phartneriaid allweddol yn ystod mis Hydref 2022 - Ionawr 2023. Y disgwyl yw y bydd swyddogion yn derbyn adborth drafft yn ystod mis Ionawr 2023, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ystod mis Mawrth 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adolygiad yn llywio archwiliad a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Nid oes unrhyw ofynion cyllideb wedi'u nodi ar gyfer cynnal yr adolygiad. |
| Cyfreithiol | Mae'r adolygiad yn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adrannau 17 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. |
| Staffio | Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyfweliadau ag Aelodau a staff mewn gwahanol rolau yn y Gwasanaeth, a allai gael effaith arnynt i gyflawni eu swyddi er bod hyn yn debygol o fod yn effaith fach iawn.<br><br>Bydd ceisiadau am wybodaeth a data gan Archwilio Cymru yn cael eu hwyluso gan y swyddog cyswllt ac aelodau o Dîm Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth. |
| Cydraddoldeb/<br>Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Mae Briff y Prosiect ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae Archwilwyr yn fodlon cynnal y cyfweliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| Risgiau | Nid oes rhai wedi'u nodi. |

# Briff Prosiect – Lleihau Galwadau Diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3021A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Archwilio Cymru na, lle y bo’n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo’n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Briff prosiect

Cefndir 4

Diben yr adolygiad 6

Ffocws yr adolygiad 6

Dull 6

Prif gwestiynau'r adolygiad 7

Allbwn 8

Manteision bwriadedig 8

Amserlen 8

Trefn y gwaith maes 9

Cais am ddogfennau 9

Cysylltiadau Archwilio Cymru 11

# Briff prosiect

## Cefndir

1 Bydd yr adolygiad o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer 2022-23 yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed i leihau ac atal galwadau tân diangen. Y diffiniad o alwadau tân diangen yw digwyddiad lle mae criw tân ac achub yn ymateb i ddigwyddiad gan gredu bod tân ond eu bod yn darganfod ar ôl cyrraedd nad oes digwyddiad yn bodoli neu wedi bodoli. Mae'r briff prosiect hwn yn darparu gwybodaeth gefndir ar gyfer yr adolygiad, y fethodoleg archwilio allweddol, allbynnau a graddfeydd amser.

2 Ers 2009, mae'n ofynnol i holl Awdurdodau Tân ac Achub y DU (ATAau) gofnodi digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt trwy'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) ar-lein. Mae hyn yn cynnwys galwadau tân diangen, a gaiff eu rhannu'n dri is-gategori:

- oherwydd cyfarpar – lle mae larwm neu offer diffodd tân yn gweithredu trwy gamgymeriad, gan gynnwys cael eu hysgogi'n ddamweiniol gan bobl.
- galwadau â bwriad da – lle mae rhywun yn credu â phob ewyllys da bod angen y gwasanaeth.
- galwadau diangen maleisus – lle mae rhywun yn bwriadu ennyn ymateb i ddigwyddiad nad yw'n bodoli.

3 Caiff data IRS ar y categorïau hyn ei gyhoeddi'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Er y bu gostyngiad sylweddol mewn galwadau diangen ers blwyddyn ariannol 2007-08, mae ATAau Cymru'n dal i ymateb i filoedd o ddigwyddiadau diangen. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, ymatebodd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i 14,880 o alwadau diangen:

**Arddangosyn 1: galwadau diangen yn ôl rheswm a blwyddyn ariannol, 2007-08 a 2018 - 2021**

| Categori | BA 2007-08 | BA 2018-19 | BA 2019-20 | BA 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Maleisus | 1,532 | 372 | 375 | 321 |
| Bwriad da | 5,946 | 5,855 | 5,422 | 5,810 |
| Oherwydd cyfarpar | 12,120 | 8,258 | 8,484 | 8,749 |

| Categori | BA 2007-08 | BA 2018-19 | BA 2019-20 | BA 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfran o gyfanswm y digwyddiadau | 35.6% | 39.5% | 40.8% | 48.9% |

N.B. 2007-08 yw'r data cynharaf sydd ar gael ac fe'i darperir ar gyfer ei gyd-destun

Ffynhonnell: StatsCymru

4 Yn ogystal â'r rhai a fynychwyd, mae ATAau hefyd yn derbyn larymau ffug nad ydynt yn cael eu mynychu oherwydd y ffordd y maent yn cael eu trin gan Weithredwyr Rheoli. Dyma'r cadarnhad canlyniad yn bennaf gan ffynhonnell y signal nad oes digwyddiad. Mae'r rhain yn dal i fod yn signalau ffug, ond gan nad yw criw yn mynychu neu'n cael eu troi o gwmpas enroute, nid ydynt yn cael eu cofnodi yn data IRS.

5 Mae costau ymateb i'r digwyddiadau hyn yn ariannol a dynol, gyda risgiau a chostau cyfle uwch. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod y 9,805 o alwadau diangen oherwydd cyfarpar yn 2013-14 wedi costio £2.94 miliwn i ATAau Cymru (prisiau 2014)[1]. Gall y costau hyn amrywio yn ôl amryw amgylchiadau, megis y math o ddiffoddwr tân sy'n ymateb, neu'r pellter a deithir.

6 Ar ben hynny, gan bod criwiau tân ac achub yn credu eu bod yn ymateb i ddigwyddiadau go iawn, mae eu hymateb union yr un fath ag ymateb i dân go iawn. Yn aml gall hyn olygu ymateb 'golau glas' sydd hefyd yn cynyddu'r risg ar gyfer y criw(iau) sy'n ymateb a defnyddwyr eraill y ffyrdd. Hefyd, ceir risg nad yw criw sy'n ymateb i alwad tân ddiangen yn gallu ymateb i ddigwyddiad go iawn neu fod oedi cyn y gall ymateb.

7 Ceir costau ychwanegol hefyd pan ddefnyddir offer, megis traul ychwanegol a mwy o allyriadau carbon. Mae hyn yn gwneud cyrraedd targed Llywodraeth Cymru bod y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030 yn fwy o her byth. Mae hefyd yn golygu y collir cyfle i hyfforddi criwiau neu i ddiffoddwyr tân gael eu lleoli i gyflawni gweithgareddau eraill, megis gwaith atal. O ganlyniad, ceir mân gostau yn ychwanegol at yr ymateb ar unwaith y mae angen eu hystyried.

8 Gall galwadau diangen sy'n digwydd dro ar ôl tro ac yn aml danseilio hyder mewn systemau diogelwch tân hefyd, sy'n arwain at bobl mewn safleoedd o'r fath o bosibl yn cymryd larymau'n llai difrifol. Gall hyn brofi'n gostus os bydd tân go iawn ar yr un safle.

9 Mae'r sector tân ac achub yn ei gyfanrwydd wedi nodi mater galwadau diangen ac wedi ceisio ffyrdd o'u hatal a'u lleihau. Cynhyrchwyd canllawiau gan y Gymdeithas

[1] Llywodraeth Cymru, Amser Gweithredu, Hydref 2015

Prif Swyddogion Tân (CFOA) yn 2014[2] a oedd yn canolbwyntio ar eu lleihau yn dilyn ymgynghori ag ATAau a rhanddeiliaid eraill. Ar y cyd, fe gynhyrchodd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru ganllawiau[3] ar rybuddion diangen a achosir gan larymau tân awtomatig yn 2018.

10 Yn 2015, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad *Amser Gweithredu*, a archwiliodd y mater hwn ac a gyflwynodd ystod o opsiynau i ATAau, perchnogion/meddianwyr adeiladau, ac ar gyfer cydweithio rhwng y ddau. Hefyd, fe wnaeth Fframwaith Cenedlaethol 2016[4] gefnogi a mabwysiadu argymhellion i 'Adnabod prif achosion larymau ffug a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i ostwng eu niferoedd'. Ers hynny, mae nifer y galwadau diangen wedi aros yn ystyfnig uwchlaw 14,000 o ddigwyddiadau y flwyddyn.

11 Felly, bydd yr adolygiad hwn yn ceisio deall pam fod galwadau diangen yn dal i ddigwydd mor fynych, beth yw eu cost, pa un a yw argymhellion blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith a'r camau eraill a gymerwyd gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â hwy. Mae'r adolygiad hefyd yn gyfle i rannu a dysgu o waith mewn rhannau eraill o'r DU.

12 At ddibenion yr adolygiad hwn, bydd Archwilio Cymru'n canolbwyntio'n bennaf ar alwadau tân diangen annomestig. Gan bod llawer o alwadau diangen yn deillio o leoliadau eraill yn y sector cyhoeddus, bydd yr adolygiad yn amlygu themâu cenedlaethol i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

## Sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad

13 Cyflawnir y prosiect hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adrannau 17 a 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Bydd hefyd yn sail i archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Diben yr adolygiad

14 Bydd yr adolygiad yn darparu sicrwydd ar gyfer dinasyddion, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod bod digon o gynnydd yn cael ei wneud i leihau nifer yr achosion o alwadau tân diangen a'u costau cysylltiedig o adeiladau annomestig yn bennaf. Bydd hefyd yn cynorthwyo'r Awdurdod i adnabod arfer da ac i weld manteision ehangach, megis lleihau allyriadau carbon.

[2] CFOA, Guidance for the Reduction of False Alarms & Unwanted Fire Signals, 2014

[3] Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Lleihau Rhybuddion gan Larymau Tân Awtomatig 2018

[4] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016, Tachwedd 2015

# Dull

15 Bydd y prosiect yn bennaf yn golygu adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau. Lle gall fod angen cyfweliadau, lle y bo'n ymarferol byddwn yn ceisio integreiddio hyn â gwaith arall sydd yn yr arfaeth a/neu ein cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda swyddogion/aelodau'r Awdurdod.

16 Wrth gynnal y prosiect hwn, byddwn hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau ein gwaith parhaus a diweddar arall, canfyddiadau gwaith Arolygwyr a Rheoleiddwyr eraill a gwaith mecanweithiau adolygu mewnol yr Awdurdod ei hun megis swyddogaethau archwilio mewnol a chraffu'r Awdurdod. Mae ein dulliau allweddol yn cynnwys:

- **D1:** Adolygiad o wybodaeth a phrofiad archwilio ac arolygu cronnus (CAIKE)
- **D2:** Adolygiadau o ddogfennau (gweler **Arddangosyn 4**)
- **D3:** Cyfweliadau gyda swyddogion allweddol ac aelodau'r Awdurdod
- **D4:** Cyfweliadau gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus sy'n achosi niferoedd sylweddol o alwadau tân diangen
- **D5:** Cyfweliadau gydag ATAau eraill i adnabod arfer da
- **D6:** Arolwg byr o reolwyr adeiladu sectorau allweddol

# Prif gwestiynau'r adolygiad

**Arddangosyn 2: prif gwestiynau'r adolygiad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif gwestiynau y byddwn yn ceisio'u hateb wrth gynnal yr adolygiad hwn.

| **Lefel 1** |
|---|
| **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall ei wneud i leihau nifer yr achosion o alwadau annomestig tân diangen?** |
| **Lefel 2** |
| • A oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda am leoliadau, achosion ac effeithiau galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig?<br>• A oes gan yr Awdurdod gynllun neu strategaeth eglur a phriodol ar gyfer mynd i'r afael â galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig sy'n ystyried risg a thystiolaeth addas?<br>• A yw'r Awdurdod yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso a monitro perfformiad i sicrhau bod galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig yn lleihau? |

- A yw'r Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig y mae'n ymateb iddynt?

# Allbwn

17 Unwaith y byddwn wedi cwblhau ein gwaith maes, byddwn yn darparu adroddiad ac yn cyflwyno ein canfyddiadau i'r Awdurdod. Bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'n canfyddiadau ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella ac yn cymharu perfformiad ehangach ag ATAau eraill Cymru.

18 Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dull 'dim syrpreisys' a rhannu canfyddiadau a chasgliadau sy'n dod i'r amlwg gydag uwch reolwyr cyn cyflwyno'r adroddiad.

# Manteision bwriadedig

19 Bydd yr adolygiad yn helpu i:

- Ddarparu sicrwydd bod gan yr Awdurdod strategaeth briodol i leihau galwadau tân diangen mewn safleoedd annomestig.
- Darparu sicrwydd bod cynlluniau ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y defnyddir adnoddau.
- Darparu mewnwelediad trwy amlygu cyfleoedd ar gyfer gwella.

# Amserlen

**Arddangosyn 3: amserlen**

Mae'r tabl isod yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad yn yr Awdurdod

| **Amserlen arfaethedig** | |
|---|---|
| Briff prosiect drafft yn cael ei drafod gyda'r Awdurdod a drafft terfynol yn cael ei gyhoeddi | Gorffennaf 2022 |

| Amserlen arfaethedig | |
|---|---|
| Adolygiad o ddogfennau a gwaith desg arall i ddadansoddi gwybodaeth | Gorffennaf – Hydref 2022 |
| Cyfweliadau | Hydref 2022 - Ionawr 2023 |
| Cyfarfod i drafod canfyddiadau sy’n dod i’r amlwg a chael adborth ar y casgliadau drafft | Rhagfyr/Ionawr 2023 |
| Cyhoeddi a chwblhau’r adroddiad | Mawrth 2023 |

# Trefn y gwaith maes

## Cyfweliadau

20 Byddwn yn cynnal cyswllt â’r Awdurdod i nodi a chytuno pwy y bydd angen i ni gyfweld â hwy i oleuo ein hadolygiad. Fel lleiafswm, byddwn yn cyfweld ag aelodau o’r uwch dîm arwain; y Pennaeth/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol; staff rheng-flaen a chynrychiolwyr cyrff partner allweddol sy’n rhan o waith i leihau galwadau tân diangen. Gallwn gynnig cyfweliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Dull archwilio

21 Mae Archwilio Cymru’n parhau i fonitro’r sefyllfa o ran COVID-19 yn fanwl. Er ein bod ni’n ymwybodol bod rhaid i weithgarwch i gyflawni ein harchwiliad beidio â thynnu oddi wrth waith pwysig cyrff cyhoeddus ar yr adeg dyngedfennol hon, rydym hefyd yn hyderus y gall ychwanegu gwerth a mewnwelediad i gynorthwyo sefydliadau gyda’u hadferiad. Fel egwyddor, byddwn wastad yn sicrhau ein bod yn taro cydbwysedd rhwng cyflawni ein cyfrifoldebau statudol ar y naill law a rhoi’r amser a’r lle i gyrff cyhoeddus y mae eu hangen arnynt i adfer o’r pandemig ar y llaw arall.

22 Blaenoriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o hyd yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff Archwilio Cymru, eu teuluoedd ac iechyd, diogelwch a lles ein partneriaid mewn cyrff eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddwn yn ymgysylltu â’r Awdurdod i gytuno sut orau i wneud ein gwaith maes a byddwn yn dal i fod yn hyblyg trwy gydol y broses.

# Cais am ddogfennau

23 Cyn cyfweliadau byddwn yn cynnal adolygiad o'r dogfennau a enwir isod. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw ddogfennau ychwanegol ar ein cyfer a allai fod yn berthnasol i'n gwaith yn y maes hwn yn eich tyb chi. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gellir gofyn am ddogfennau ychwanegol yn ystod yr adolygiad. Lle mae dogfennau yn y rhestr isod ar gael yn gyhoeddus ar wefan yr Awdurdod, byddem yn ddiolchgar pe gallech ein cyfarwyddo at y tudalennau lle gallwn ddod o hyd iddynt os gwelwch yn dda.

**Arddangosyn 4: mae'r tabl isod yn nodi'r dogfennau yr hoffem ofyn amdanynt i ddechrau fel rhan o'r adolygiad hwn**

| Teitl y ddogfen |
| --- |
| • Cynllun lleihau galwadau tân diangen.<br>• Unrhyw wybodaeth (mewnol ac IRS)casglu data am alwadau tân diangen, megis achosion, amlder, hyd yr ymateb, a'r gost, gan gynnwys y rhai na fynychwyd<br>• Tystiolaeth a dadansoddiad o unrhyw ymarferion ymgynghori neu ymgysylltu i oleuo strategaeth neu bolisi galwadau tân diangen.<br>• Tystiolaeth o hyfforddiant a chanllawiau a ddarparwyd ar gyfer swyddogion ar roi'r strategaeth galwadau tân diangen ar waith.<br>• Y Cynllun Corfforaethol.<br>• Swydd-ddisgrifiadau, achos busnes a manyleb unrhyw rôl/rolau a neilltuwyd i (neu'n bennaf ar gyfer) arwain ar ymateb yr Awdurdod i alwadau tân diangen.<br>• Cylchoedd Gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd diweddar unrhyw weithgorau sy'n cydlynu a/neu'n craffu ar alwadau tân diangen.<br>• Cyhoeddusrwydd a gwaith ymgyrchu ar leihau galwadau tân diangen.<br>• Tystiolaeth o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol Llywodraeth Cymru.<br>• Tystiolaeth o ymgysylltu â phartneriaid yn y sector cyhoeddus i leihau galwadau tân diangen.<br>• Adroddiadau ar berfformiad yn erbyn targedau, camau gweithredu a cherrig milltir – i uwch swyddogion ac aelodau'r Awdurdod.<br>• Chwalu'r gost o ddefnyddio teclyn tân i ymateb i alwad.<br>• Manylion cyswllt rheolwyr adeiladau a gedwir gan yr Awdurdod. |

# Cysylltiadau Archwilio Cymru

**Arddangosyn 5: Cysylltiadau Archwilio Cymru**

Mae’r tabl isod yn nodi’r tîm yn Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr adolygiad hwn yn yr Awdurdod.

| Rôl | Enw |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | Derwyn Owen |
| Rheolwr Archwilio | Nick Selwyn |
| Uwch Archwilwyr | Matthew Brushett<br>Philippa Dixon<br>Euros Lake<br>Charles Rigby |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn* Saesneg **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Yr Amgylchedd)** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony T Jones, Pennaeth Gweithrediadau ac Ardal y Dwyrain** |
| Pwnc | **Deddf Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd (Cymru) 2016** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gynllunio arfaethedig yn y dyfodol ac adrodd ar gamau gweithredu gan yr Awdurdod mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer, ac adrodd ar y camau mae'n ei gymryd i wella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Bioamrywiaeth drafft a Chynllun Gweithredu 2022 ar gyfer ei gymeradwyo i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn diwedd mis Rhagfyr yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**ARGYMHELLION**

3. Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo cynnwys yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022 atodedig i'w ymgorffori mewn cyhoeddiad ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Rhagfyr 2022.

**CEFNDIR**

4. Mae bioamrywiaeth yn ymwneud â'r amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'r economi ac iechyd a lles pobl yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth am fwyd, dŵr glân ac aer, deunyddiau crai, ynni a diogelwch rhag peryglon fel llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

5. Roedd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau'n briodol.

6. Yn 2015 fe lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Adfer Natur gyda'r nod o wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd y Cynllun hwn yn nodi sut byddai Cymru'n cyflawni ymrwymiadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol drwy gyfrwng camau gweithredu tymor byr hyd at 2020 ac fel ymrwymiadau tymor hwy y tu hwnt i 2020.

7. Fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu saith nod llesiant i Gymru y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i'w cyflawni. Mae un o'r nodau hynny'n ymwneud â 'Chymru gydnerth', gan wneud Cymru'n genedl 'sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid'.

8. Yn 2016, daeth awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru'n ddarostyngedig i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a oedd yn cyflwyno dyletswydd uwch ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ('dyletswydd adran 6').

9. Mae'r ddyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus – gan gynnwys awdurdodau tân ac achub – i gynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

10. Dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu holl weithgareddau gan gynnwys unrhyw gynllunio busnes, polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Yn benodol, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, ac adroddiad sy'n disgrifio'r hyn mae eisoes wedi'i wneud yn hyn o beth. Cafodd yr adroddiad ôl-weithredol cyntaf o'r fath ei gyhoeddi yn 2019, gydag adroddiadau dilynol i gael eu cyhoeddi bob tair blynedd wedi hynny.

**GWYBODAETH**

11. Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu ar gyfer rheoli safleoedd yr Awdurdod mewn ffyrdd sy'n gwella bioamrywiaeth ei ystâd drwy fynd i'r afael â'r chwe amcan sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth drafft atodedig (gweler Atodiad 1).

12. Yn ogystal â hyn, mae amcanion drafft yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 yn cynnwys bwriad i ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol. Felly byddai cynllunio camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn y dyfodol yn dod o fewn cylch gwaith y strategaeth ehangach hon.

13. Mae testun drafft ail adroddiad bioamrywiaeth adran 6 yr Awdurdod wedi'i gynnwys o fewn Atodiad 1. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod, bydd hyn yn cael ei ymgorffori mewn adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn y dyddiad cau statudol ar ddiwedd Rhagfyr 2022.

14. Er mai dim ond unwaith bob tair blynedd y mae angen adrodd yn erbyn y ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gellir ymgorffori adroddiadau amlach yn y dyfodol yn Asesiadau Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiad uniongyrchol i gytuno ar y camau tuag at gyflawni un o amcanion gwelliant a llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| **Cyllideb** | Mae eitemau'r cynllun gweithredu eisoes yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliant. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn ni ar hyn o bryd. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

## Atodiad 1

## Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

# Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**<u>Cynnwys</u>**
*Tudalen*

**Contents**

1.0 Cefndir ..... 1
2.0 Cyflwyniad a Chyd-destun ..... 4
3.0 Camau a Gymerwyd ..... 5
4.0 Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a phroblemau ..... 9
4.1 Prosiectau Bioamrywiaeth (Astudiaethau Achos) ..... 9
5.0 Cynllun Gweithredu ..... 11
5.1 Amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 11
5.2 Amcan 2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 11
5.3 Amcan 3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 12
5.4 Amcan 4 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 14
5.5 Amcan 5 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 15
5.6 Amcan 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ..... 16

**<u>Tablau</u>**
*Tudalen*

Tabl 1: Mathau o Safleoedd a Lleoliadau ..... 7

# 1.0 CEFNDIR

1.0.1 Bioamrywiaeth (neu amrywiaeth fiolegol) yw'r amrywiaeth o fywyd sydd i'w gael ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth genetig; mae'n sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac yn cefnogi gweithrediad a chydnerthedd ecosystemau mewn cefnforoedd, gwlyptiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol. Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n lles yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth, sy'n darparu bwyd, dŵr glân ac aer, deunyddiau crai ac ynni i ni ac sy’n ein hamddiffyn rhag peryglon, fel llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol cysylltu pobl â byd natur a'r cyfraniad mae ei fywyd gwyllt a'i gynefinoedd yn ei wneud tuag at lesiant, ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol cymdeithas.

1.0.2 Cydnabyddir yn eang bod bioamrywiaeth dan bwysau o amrywiaeth o ddylanwadau a bod cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau i ddirywio. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth i sicrhau ei bod yn parhau'n iach, yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid. Mae effaith newid hinsawdd ar fioamrywiaeth dros y degawdau nesaf yn debygol o fod yn sylweddol, gan gynnwys colli mwy o gynefinoedd a chynnydd posib mewn rhywogaethau goresgynnol.

1.0.3 Mae rheoli bioamrywiaeth o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan annatod o wella ei berfformiad amgylcheddol cyffredinol ac mae'r Gwasanaeth eisoes wedi mynd i'r afael â materion bioamrywiaeth ar ei ystâd drwy ei Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2020. Roedd y Ddyletswydd Bioamrywiaeth drwy'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn gofyn i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaethau Tân, roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r maes pwnc hwn bellach yn adroddadwy o dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rhan 1, Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

1.0.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cydnabod y pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i natur a'i bioamrywiaeth; ynghyd â chwe nod arall ar gyfer Cymru gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi nod Cymru Gydnerth ar waith (cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid).

1.0.5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yn y gyfraith drwy fabwysiadu ymagwedd ecosystemau at y modd y mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno bioamrywiaeth a chydnerthedd gwell o ddyletswydd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (mae hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Tân) wrth arfer y swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae dyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.

1.0.6 Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd adran 6 dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu meddylfryd a'u gwaith cynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.0.7 O dan y Ddeddf, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd adran 6. Ni ddylai'r adroddiad fod yn feichus, a dylai fod yn gymesur â maint a math y sefydliad, o ran y camau ar gyfer bioamrywiaeth y gallent eu cyflawni. Cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei Adroddiad Bioamrywiaeth a'i Gynllun Gweithredu cyntaf ym mis Tachwedd 2019.

1.0.8 Er bod safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig yn bwysig, mae dyletswydd adran 6 yn ymwneud â chymryd camau i ddiogelu natur yn ein trefi, ein dinasoedd, ein mannau cyhoeddus a'n tirwedd ehangach, drwy weithredu'n ymarferol ar lawr gwlad, ac yn y ffordd y caiff yr holl swyddogaethau cyhoeddus eu cyflawni. Nid y mentrau tiroedd mawr yn unig sy'n bwysig, ond hefyd y camau gweithredu llai, bob dydd, ar raddfa leol a all wneud gwahaniaeth ac sy'n gallu cyfrannu at helpu bioamrywiaeth.

1.0.9 Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Adfer Natur, sy'n cynnwys y strategaeth ar gyfer Natur a'r ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion yr oedd angen ymdrin â nhw a'r amcanion i'w gweithredu; Cynllun Gweithredu i gyflawni'r amcanion i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth; a strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chyflawni camau gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

1.0.10 Drwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, mae nifer o amcanion wedi'u nodi i fynd i'r afael â materion sy'n achosi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac i gefnogi adferiad:

**Amcan 1:** Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

**Amcan 2:** Diogelu’r rhywogaethau a’r cynefinoedd pwysicaf a gwella’r modd y cânt eu rheoli.

**Amcan 3:** Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd.

**Amcan 4:** Mynd i'r afael â’r prif bethau sy’n rhoi pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

**Amcan 5:** Gwella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.

**Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a chefnogi’r gwaith o’i gyflawni.

1.0.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Canllawiau Adrodd ar gyfer dyletswydd adran 6, a defnyddiwyd y ddogfen hon i ffurfio'r adroddiad hwn.

## 2.0 CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

2.0.1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau gwarchod ac atal tân i tua 687,000 o bobl dros ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn. Mae tua 328,742 o eiddo domestig a 33,820 o eiddo annomestig o dan warchodaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 1,000 o staff mewn rolau gweithredol a chefnogol.

2.0.2 Mae'r Gwasanaeth yn gofalu am dair ardal ddaearyddol, sef ardaloedd Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae ganddo ystâd o 47 o adeiladau, yn amrywio o orsafoedd tân amser llawn, criw dydd, wrth gefn a gorsafoedd tân yn y gymuned, swyddfeydd gweinyddol, gweithdy garej i adeiladau sy'n cael eu rhannu gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae gan bob ardal swyddfa diogelwch cymunedol a rheolwr diogelwch cymunedol dynodedig. Bob blwyddyn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynychu tua 1,879 o danau, 958 o Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, a thua 2,517 o alwadau diangen o wahanol fathau bob blwyddyn.

2.0.3 Mae ganddo fflyd fawr gan gynnwys 54 o beiriannau tân, un uned meistroli digwyddiadau a 31 o gerbydau 'arbennig' – fel cerbydau arbenigol a chludwyr ewyn; mae tri pheiriant ag ysgol ac esgynlawr, offer pŵer cludadwy, offer codi a winsio ac offer arbenigol eraill i'n galluogi i ymateb i nifer o wahanol fathau o ddigwyddiadau.

2.0.4 Mae'r Gwasanaeth yn gwneud gwaith helaeth gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch ac atal tân. Mae'r potensial am niwed difrifol i'n hamgylchedd, yn aml mewn ardaloedd sensitif, gan effaith tanau cefn gwlad yn bryder difrifol. Mae effaith cynnau tân bwriadol yn tanseilio hyder cymdeithasol ac economaidd ac yn tynnu adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn mannau eraill.

2.0.5 Yn ogystal â'r ymateb Gweithredol i fynychu tanau neu ddigwyddiadau mewn ardaloedd lle gallai bioamrywiaeth gael ei heffeithio ganddyn nhw, mae Tîm Lleihau Llosgi Coed (partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru) yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl. Nod y Tîm yw lleihau nifer y tanau cefn gwlad sy'n cael eu cynnau'n fwriadol; newid agwedd y gymuned tuag at danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol; defnyddio dull partneriaeth aml-asiantaeth o fynd i'r afael â'r broblem hon; sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyflwyno i gymunedau ar danau cefn gwlad a chefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau dargyfeiriol ar gyfer oedolion a phobl ifanc, atal troseddwyr posib ac ymyrryd yn gynnar pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau.

2.0.6 Felly, gellir ystyried Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Sefydliad Grŵp 2 yng nghanllawiau'r adran 6 mewn perthynas â'r disgrifiad o sefydliad cymharol â bioamrywiaeth. Hynny yw, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sefydliad sydd (1) yn berchen ar, yn meddiannu neu'n rheoli tir yn eu safle eu hunain a (2) mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir neu sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n eu rheoli.

2.0.7 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynhyrchu cynlluniau llesiant ac mae'n aelod o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych a Sir y Fflint mewn perthynas â bioamrywiaeth, newid hinsawdd a gweithgorau ar yr agenda amgylcheddol.

## 3.0 CAMAU A GYMERWYD

3.0.1 Mae'r Adran Rheoli Cyfleusterau yn gyfrifol am gyflawni prosiectau bioamrywiaeth a'r contract cynnal a chadw tir yn safle'r Gwasanaeth, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

3.0.2 Daeth y cyn-gontract cynnal a chadw tir i ben ar 31 Mawrth 2020 ac wrth ddatblygu'r fanyleb ar gyfer y contract newydd (sydd bellach yn weithredol), mae camau gwella bioamrywiaeth i'w cymryd mewn safleoedd, wedi'u cynnwys.

3.0.3 Mae'r contract cynnal a chadw tir yn ymwneud â chyfundrefn lle mae'r holl ardaloedd glaswelltog mewn safleoedd yn cael eu torri bob pythefnos rhwng Ebrill a Thachwedd bob blwyddyn; llwyni, gwrychoedd a choed yn cael eu tocio yn ôl y galw; chwynladdwyr yn cael eu defnyddio i reoli chwyn ar ardaloedd palmantog, cyrbau a gwaelod adeiladau; a mannau caled (meysydd parcio, llwybrau ac ati) yn cael eu clirio o sbwriel ac unrhyw wastraff (glaswellt, dail, llwyni marw ac ati) yn cael ei dynnu oddi ar y safle. Mae rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol wedi'i gynnwys yn y contract cynnal a chadw tiroedd. Mae clymog Japan yn cael ei reoli'n llym mewn tri safle.

3.0.4 Yn ogystal â'r tri chynllun creu cynefinoedd a nodwyd yn 2019, mae'r Gwasanaeth wedi cynnal pedwar prosiect diogelu neu wella bioamrywiaeth o fewn y cyfnod adrodd presennol:

**Prosiect 1:** Dolgellau: Diwrnod gweithredu amgylcheddol

**Prosiect 2:** Mynyddoedd Llandysilio a Rhiwabon: Ymgyrch atal llosgi bwriadol a hydrohadu

**Prosiect 3:** Abergele, y Waun, Conwy, y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr: Lleihau'r drefn torri gwair

**Prosiect 4:** Gorsaf Dân Harlech: Gosod bocs cyflym

Bydd y prosiectau hyn yn cael eu trafod isod yn yr astudiaethau achos.

3.0.5 Gellir grwpio ystâd y Gwasanaeth yn dri math o safle:

**Grŵp 1:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog + llwyni, gwrychoedd, coed

**Grŵp 2:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog

**Grŵp 3:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled yn unig

Mae crynodeb o bob safle a'u lleoliadau daearyddol yn Nhabl 1: Mathau o safleoedd a lleoliadau.

## Tabl 1: Mathau o safleoedd a lleoliadau

| Ardal y Sir | Grŵp 1<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog + llwyni, gwrychoedd, coed<br><br>B = safle prosiect bioamrywiaeth<br>JK = Rheoli clymog Japan | Grŵp 2<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog | Grŵp 3<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled yn unig |
|---|---|---|---|
| **Conwy** | Gorsaf Dân (GD) Bae Colwyn<br>GD Conwy<br><br>GD Llanfairfechan<br>GD Llanrwst<br>Fflyd a Storfeydd<br>TGCh – Uned 8 | GD Abergele<br><br>GD Cerrigydrudion | GD Llandudno<br>GD Betws-y-coed |
| **Sir Ddinbych** | Cyfadeilad y Rhyl<br>GD Corwen (JK)<br>GD Rhuthun<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân (B) | GD Llangollen<br>GD Prestatyn<br>GD Llanelwy | GD Dinbych |
| **Fflint** | GD Glannau Dyfrdwy | GD Bwcle<br><br>GD y Fflint<br>GD yr Wyddgrug | GD Treffynnon |
| **Wrecsam** | GD y Waun<br>GD Wrecsam [Canolfan Adnoddau Ambiwlans a Gwasanaethau Tân Wrecsam]<br>- tiroedd o dan reolaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | GD Tre Ioan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | GD Porthaethwy<br>GD Rhosneigr | GD Caergybi<br>GD Benllech<br>GD Llangefni (JK) | GD Amlwch<br>GD Biwmares |
| **Gwynedd** | GD Caernarfon<br>GD Bangor<br>GD Abersoch<br>GD a Gorsaf yr Heddlu Nefyn (B)<br>GD Pwllheli (JK)<br>GD Porthmadog<br>GD a Gorsaf yr Heddlu Tywyn (B) | GD Llanberis<br>GD Dolgellau<br>GD Y Bala<br>GD Blaenau Ffestiniog<br>GD Harlech | GD Aberdyfi<br>GD y Bermo |
| **Cyfanswm** | **21**<br>(22 gan gynnwys Wrecsam) | **17** | **8** |

## 4.0 UCHAFBWYNTIAU, PRIF GANLYNIADAU A PHROBLEMAU

4.0.1 Mae'r potensial i fynd i'r afael ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn uchel, gydag 83% o safleoedd ag ardaloedd o dirlunio meddal (ardaloedd glaswelltog) a 46% o'r safleoedd hynny ag ardaloedd ychwanegol o fewn y tiroedd sy'n cynnwys llwyni, gwrychoedd neu goed; dim ond 17% o safleoedd sydd heb unrhyw lystyfiant.

4.0.2 Arsylwadau o ymweliadau blaenorol â safleoedd:

- Mae rhai ardaloedd glaswelltog yn rhy fach i gynnal trefn 'dim torri o Ebrill i Awst'.
- Mae rhai gwrychoedd yn dod o dir cymdogion, ond yn rhan o berimedr safle Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; lle mae bylchau yn y gwrych (atal coridorau bywyd gwyllt a rhyng-gysylltedd), gallai'r ardal ar lefel y ddaear ar ochr y Gwasanaeth fod yn rhai wyneb caled.

  Mae coed castanwydden yn dueddol o fod ar safleoedd â choed aeddfed. Yn ystod yr Hydref mae aelodau o'r cyhoedd yn dod i'r tir i gasglu concyrs. Mae'r safleoedd hyn eisoes yn galluogi ffordd i'r Gwasanaeth gyfrannu tuag at ymgysylltu â'r gymuned â natur. Gwelwyd yr ymddygiad yma yn ystod ymweliadau safle â gorsafoedd tân Porthmadog a Chonwy.

## 4.1 Prosiectau Bioamrywiaeth (Astudiaethau Achos)

<u>Prosiect 1</u>

4.1.1 Cymerodd Staff o'r Gwasanaeth ran mewn Diwrnod Gweithredu Amgylcheddol mewn partneriaeth ag Adra a Chyngor Gwynedd ym mis Medi 2021 yn Nolgellau, ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r cyhoedd am bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd yn lleol, a chael gwared ar sbwriel.

<u>Prosiect 2</u>

4.1.2 Cynhaliodd y Gwasanaeth ymgyrch atal llosgi bwriadol mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru ym mis Awst 2022 ym Mynyddoedd Llandysilio a Rhiwabon, yn dilyn tân gwyllt yn Llandysilio yn 2018 a orchuddiodd 250ha o fewn Safle Dynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Ym mis Hydref 2021, yn dilyn y tân hwn, rhoddodd y Gwasanaeth gymorth logistaidd i Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â chynllun hydrohadu yn ardal y tân.

4.1.3 Roedd yr ymgyrch atal llosgi bwriadol yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd ac addysg ar sut i osgoi gweithgareddau risg uchel fel taflu sigaréts a/neu ddefnyddiau gwydr a sut i ddefnyddio a gwaredu barbeciws.

Prosiect 3

4.1.4 Yn unol â Chontract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwell Bioamrywiaeth, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2020, mae'r drefn torri glaswellt wedi'i lleihau i'r Gwanwyn a'r Hydref yn unig yn Abergele, y Waun, Conwy, y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr.

4.1.5 Y nod o wneud hyn ydy caniatáu twf cynefin ar gyfer peillwyr a phryfed sy'n llysysyddion.

Prosiect 4

4.1.6 Fel rhan o gynllun dymchwel tŵr hyfforddi a gosod un newydd yng Ngorsaf Dân Harlech, sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri a SSSI Coed Llechwedd, mae'r Gwasanaeth wedi cytuno i osod bocs nythu teras adar to yn yr orsaf.

## 5.0 CYNLLUN GWEITHREDU

5.0.1 Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am ba gamau y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu cymryd i gyrraedd amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP), o ran rheoli eu tiroedd a chynnal a gwella bioamrywiaeth yn eu safleoedd.

### 5.1 Amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*“Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.”*

5.1.1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â bioamrywiaeth ar ei ystâd, ac ar hyn o bryd mae'n datblygu polisi i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (SDAP), a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2020.

5.1.2 Darperir data, gwybodaeth ac adroddiadau sy'n ymwneud â meysydd pwnc sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i Uwch Swyddogion a'r Awdurdod Tân, fel sy'n ofynnol neu yn ôl y gofyn .

5.1.3 Hyd yma, mae codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth wedi bod yn seiliedig ar safle’r prosiect yn bennaf, er enghraifft roedd prosiect bioamrywiaeth y Pencadlys Tân yn hysbysu staff o'r gwaith sy'n cael ei wneud a pham. Bu ymgysylltu da â’r cynllun, gyda staff yn tynnu lluniau rhywogaethau (gloÿnnod byw a phryfed eraill) ac yn rhoi adborth am unrhyw broblemau i'r Adran Cyfleusterau .

### 5.2 Amcan 2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*“Diogelu’r rhywogaethau a’r cynefinoedd pwysicaf a gwella’r modd y cânt eu rheoli.”*

5.2.1 Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw safleoedd gwarchodedig o fewn ei ystâd.

5.2.2 Mae'r Pencadlys Tân wedi'i leoli ar Barc Busnes Llanelwy, lle mae’r Fadfall Gribog Fwyaf yn byw, ac mae unrhyw waith sy’n tarfu ar y tir yn cymryd i ystyriaeth y gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r madfallod dŵr hyn.

5.2.3 Lle cynhelir datblygiad adeiladu newydd neu waith adnewyddu mawr gan y Gwasanaeth, cynhelir ardystiad BREEAM ar gynlluniau lle bo'n ymarferol i wneud hynny. BREEAM yw'r dull sefydledig hiraf yn y byd o asesu, sgorio, ac ardystio cynaliadwyedd adeiladau. Dyma'r egwyddorion ar gyfer cynnal gwaith datblygu:

- Sicrhau, lle bo'n bosibl, bod unrhyw waith adeiladu yn digwydd ar safleoedd sy'n cael eu diffinio fel tir o werth ecolegol isel
- Gan sicrhau, lle bo'n bosibl, bod unrhyw waith datblygu'n gwarchod nodweddion ecolegol presennol rhag cael difrod sylweddol wrth ei baratoi neu ei gwblhau.
- Cydnabod ac annog camau a gymerwyd i wella gwerth ecolegol safleoedd datblygu o ganlyniad i'r datblygiad.

## 5.3 Amcan 3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd."*

5.3.1 Mae'r amcan hwn yn cael ei fodloni drwy weithredu'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2020.

5.3.2 Cafodd pob safle dan reolaeth y Gwasanaeth eu hasesu am eu gofynion cynnal a chadw tir a'u potensial i greu cynefinoedd, gyda chyfundrefn safle-benodol yn cael ei hysgrifennu ar gyfer pob safle, gan gynnwys cynlluniau safle a mesuriadau ardaloedd o lystyfiant.

5.3.3 Cyfeiriwch at Dabl 1 uchod: Mathau o safleoedd a lleoliadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

5.3.4 Mae'r potensial i fynd i'r afael ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn uchel, gydag 83% o safleoedd yn meddu ar ardaloedd tirlunio meddal (ardaloedd glaswelltog) a 46% o'r safleoedd hynny yn meddu ar ardaloedd ychwanegol o fewn y tiroedd sy'n cynnwys llwyni, gwrychoedd neu goed; dim ond 17% o safleoedd sydd heb unrhyw lystyfiant.

5.3.5 Dyma'r cyfundrefnau a gafodd eu rhoi ar waith o dan y Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth:

Ardaloedd Glaswelltog

5.3.6 Oni bai bod angen cynnal yr ardal laswelltog fel nodwedd ffurfiol (h.y. o flaen y Pencadlys) neu fod arwynebedd y glaswellt yn rhy fach, mae'r drefn torri gwair wedi ei lleihau o bob pythefnos rhwng Ebrill ac Awst i un toriad yn y gwanwyn ac un yn yr hydref. Felly, mae hyn yn gadael i'r glaswellt dyfu rhwng Ebrill ac Awst bob blwyddyn i gynyddu'r cynefin sydd ar gael i beillwyr a rhywogaethau eraill.

5.3.7 Lle mae ardaloedd glaswelltog yn cael eu gadael i dyfu rhwng Ebrill ac Awst, bydd stribed ar hyd ymyl y glaswellt wrth ymyl arwynebau caled yn cael eu torri'n rheolaidd, i ddangos ble mae'r ardal bioamrywiaeth, nodi bod yr ardal yn cael ei rheoli ac yn caniatáu unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch i bersonél sy'n defnyddio'r safle.

5.3.8 Ar gyfer ardaloedd o laswellt sy'n rhy fach i'w gadael i dyfu, mae'r rhain wedi cael eu hasesu'n unigol am gynefinoedd amgen 'sy'n gyfeillgar i beillwyr', fel gwelyau blodau neu botiau.

Llwyni a Choed

5.3.9 Bydd yr holl goed yn cael eu cofnodi mewn Rhestr Coed (parhaus), gan nodi'r lleoliad, unrhyw orchmynion diogelu coed, rhywogaethau, oedran yn fras, cyflwr (iechyd y goeden ac asesiadau risg [risg i'r goeden o glefyd fel clefyd coed ynn a risg o'r goeden, fel tynnu canghennau marw a allai ddisgyn ar eiddo neu bobl]).

5.3.10 Lle bydd angen tynnu coed, bydd rhywogaethau brodorol addas yn cymryd eu lle.

5.3.11 Lle bydd coed wedi eu symud yn y gorffennol a bylchau yn y cynefin, lle bo'n ymarferol, bydd y bylchau hyn yn cael eu llenwi drwy blannu coed newydd.

5.3.12 Bydd gwrychoedd a llwyni'n cael eu tocio ar yr adeg briodol o'r flwyddyn a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i rywogaethau a allai fod yn eu defnyddio, fel adar sy'n nythu.

5.3.13 Lle mae angen adnewyddu neu drwsio llwyni neu wrychoedd, bydd rhywogaethau blodeuol (fel y ddraenen wen) yn cael eu defnyddio fel stoc porthiant ar gyfer peillwyr.

5.3.14 Bydd pentyrrau o goed, a bocsys ystlumod, adar a phryfed yn cael eu gosod ar safleoedd lle bo hynny'n ymarferol.

Codi Ymwybyddiaeth am Fioamrywiaeth

5.3.15 Mae staff Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru wedi cael gwybod am y newid yn y drefn cynnal a chadw tiroedd a pham mae'n digwydd.

5.3.16 Mae byrddau esbonio cyhoeddus yn cael eu harddangos mewn safleoedd sy'n destun prosiect bioamrywiaeth penodol, yn amlinellu pa gamau bioamrywiaeth penodol sydd wedi eu cymryd a'r rhesymau dros wneud hynny. Yn lle mae prosiectau mwy arwyddocaol (e.e. yr ardd gefn ym Mhencadlys Llanelwy), bydd log ffotograffig yn dangos 'cyn' ac 'ar ôl' yn cael ei arddangos fel arfer.

## 5.4 Amcan 4 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd."*

5.4.1 Mae Gwaith Rheoli Clymog Japan yn digwydd mewn 3 safle ac rydym yn monitro ei statws yn barhaus.

5.4.2 Cafodd asesiad risg i Goed Ynn y Gwasanaeth o'r clefyd coed ynn ei ohirio oherwydd y pandemig, a'r bwriad nawr yw ei gynnal erbyn diwedd 2023.

5.4.3 Lle mae gwaith plannu coed ychwanegol yn cael ei wneud, mae'r gwerth secwestru biogenig i ôl-troed carbon y Gwasanaeth o ganlyniad i secwestru carbon coed o fewn yr ystâd yn cael ei nodi fel rhan o'r adroddiad cyfrifo carbon blynyddol.

5.4.4 Pan fydd man gwyrdd ar gyfer staff, ymwelwyr neu grwpiau cymunedol yn cael ei greu, bydd unrhyw seddi'n dod o ffynonellau cynaliadwy a chymdeithasol.

5.4.5 Y defnydd o blaladdwyr a chwynladdwyr; mae'r Gwasanaeth eisoes yn gofyn i gontractwyr sicrhau bod y defnydd o'r sylweddau hyn yn gymesur, nad yw'r cemegion hyn yn cael eu rhoi ar blanhigion gwlyb na phan fydd hi'n gaddo glaw. Mae'n gofyn hefyd fod sbwriel yn cael ei waredu cyn chwistrellu a bod giardiau cymeradwy ar offer er mwyn atal drifft chwistrellu.

5.4.6 Oherwydd eu natur fiogronnol a'r graddau uchel o ecowenwyn, bydd y Gwasanaeth yn dod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân *fluorosurfactant* (C6 a C8) cadwyn hir i ben ac yn gwaredu ei stociau presennol yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Mae'r ewynnau hyn i gael eu disodli gan opsiynau eraill di-fflworin.

5.4.7 Mae gan y Gwasanaeth swyddog arweiniol tanau gwyllt penodol, sy'n ymgynghori â pherchnogion tir gan gynnwys ffermwyr ac awdurdodau lleol, a phartner awdurdodau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru i helpu i leihau difrifoldeb a nifer y tanau gwyllt yn ardal y Gwasanaeth, gan warchod cynefinoedd mawr a gwerthfawr. Mae gwaith partneriaeth gyda ffermwyr yn arbennig o werthfawr gan fod llawer o danau gwyllt y mae'r Gwasanaeth yn delio â nhw yn dechrau fel gwaith llosgi dan reolaeth gan dirfeddianwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys addysgu gofynion y Cod Llosgi Grug a Glaswellt i Gymru 2008, gan gynnwys y gofyniad i baratoi Cynllun Llosgi a hysbysu'r Gwasanaeth.

5.4.8 Bydd y Gwasanaeth yn parhau â'i waith parhaus yn ymwneud ag Atal Llosgi Bwriadol, er mwyn helpu i ddiogelu cynefinoedd naturiol.

## 5.5 Amcan 5 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro."*

5.5.1 Mae Rhestr Bioamrywiaeth o ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael ei gynhyrchu, sy'n cynnwys cynlluniau safle, mesuriadau ardaloedd glaswelltog a chynefinoedd ar y safle. Paratowyd log ffotograffig o holl ardaloedd bioamrywiaeth yr ystâd yn 2021.

5.5.2 Y flwyddyn waelodlin ar gyfer y Rhestr yw blwyddyn ariannol 2019-20, lle mae safleoedd wedi bod yn ddarostyngedig i'r hen drefn ar gyfer cynnal a chadw tiroedd, cyn y newidiadau a nodir uchod i adlewyrchu ymrwymiadau bioamrywiaeth y Gwasanaeth.

5.5.3 Mae'r Rhestr yn cael ei diweddaru bob blwyddyn, gan adlewyrchu prosiectau a wneir ym mhob safle a gwaith pellach sydd ei angen.

5.5.4 Mae pob rhestr, data a gwybodaeth ar gael i'r Ganolfan Cofnodion Amgylchedd Lleol (COFNOD), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Swyddogion Bioamrywiaeth lleol, sefydliadau partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

## 5.6 Amcan 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a chefnogi'r gwaith o'i gyflawni."*

5.6.1 Gweinyddir y gwaith o gyflwyno camau bioamrywiaeth o ddydd i ddydd ar safleoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy Adran Cadwraeth Amgylcheddol ac Ynni'r Adran Rheoli Cyfleusterau, ar y cyd â'r Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, gan adrodd i'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr Amgylchedd. Mae'r adroddiadau 'Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth' a baratoir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6 bob tair blynedd yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi.

5.6.2 Mae'r Gwasanaeth yn mynd ati yn barhaus i geisio cefnogaeth gan bartner sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd a grwpiau bywyd gwyllt lleol er mwyn nodi rhywogaethau mewn safleoedd. Er enghraifft, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, agor y tiroedd am y dydd i aelodau'r cyhoedd ac arbenigwyr ecolegol i helpu i asesu a chofnodi rhywogaethau ar y safle; gan gofnodi'r canlyniadau gyda COFNOD.

*This document is available in English* **Eitem 10 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Prif Swyddog | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Steve Morris, Rheolwr Technegol TGCh** |
| Pwnc | **Ardystiad Cyber Essentials (CE)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Rhoi gwybod i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y gwaith y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud o ran seiberddiogelwch.


**ARGYMHELLIAD**


2. Gofynnir i Aelodau:
   i) sylwi ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth ar seiberddiogelwch, gan gynnwys bod y Gwasanaeth yn gweithio tuag at gael ardystiad Cyber Essentials (CE) i ddechrau.

**GWYBODAETH**

3. Mae pob sefydliad dan fygythiad cyson gan seiberdroseddwyr sy'n ceisio ymosod ar systemau cyfrifiadurol ac nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn ddim gwahanol. Mae ein hadran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), yn ddyddiol, yn nodi ac yn atal yr ymosodiadau hyn ac yn atal bygythiadau rhag mynd i mewn i'n systemau. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae cryn dipyn o amser ac adnoddau'n cael eu defnyddio i ddiogelu'r gwasanaeth rhag ymosodiadau seiber.

4. Mae'r graffiau ar dudalen 2 yr adroddiad hwn yn dangos faint o waith sydd angen i'r adran TGCh ei wneud i'n hamddiffyn rhag bygythiadau seiber. Yn ystod y chwe mis diwethaf mae ein hadran TGCh wedi nodi a delio â 39 o feirysau a oedd yn ceisio mynd i mewn i'n systemau ac mae dros 6,000 o fygythiadau wedi'u nodi y mae'n rhaid i'n systemau ddelio â nhw a'u hatal rhag mynd i mewn i'n systemau. Mae Waliau Tân y Gwasanaeth, sef rhaglenni sy'n monitro'r hyn sy'n dod i mewn ac yn mynd allan o'n systemau ac yn rhwystro bygythiadau, yn cael eu diweddaru'n gyson i sicrhau eu bod yn effeithiol.




| Risg Critigol | Risg Uchel | Risg Cymedrol |
|---|---|---|

5. Pe na bai'r Gwasanaeth yn gweithio mor galed i nodi firysau a bygythiadau yna byddai'r Gwasanaeth yn cael ei effeithio mewn sawl ffordd wahanol:

    a. pe bai seiberdroseddwr yn cael mynediad i'n systemau gorchymyn a rheoli risg critigol, efallai na fydden ni'n gallu symud injans tân;
    b. pe bai data personol yn cael ei gyrchu ac yna'n cael ei ryddhau, bydden ni'n agored i ddirwy o hyd at 20 miliwn Ewro;
    c. mae seiberdroseddwyr yn ceisio analluogi systemau sefydliadau drwy ddefnyddio *ransomware*, ac mae'n golygu amser a chostau sylweddol i'w hailosod;
    ch. byddai cael ein heffeithio gan seiberdroseddwyr hefyd yn niweidiol i enw da'r Gwasanaeth.

6. Mae gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol fenter o'r enw Cyber Essentials (CE) sydd wedi'i chynllunio i gynorthwyo sefydliadau i ymladd yn erbyn y bygythiad cynyddol o seiberymosodiadau. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn annog pob sefydliad sector cyhoeddus i gyrraedd y safon CE, sef hunanasesiad sy'n mynd i'r afael â sut i atal y mwyafrif o seiberymosodiadau, gan weithio tuag at Cyber Essentials Plus (CE+) sy'n asesiad fwy manwl wedi'i gynnal gan aseswr annibynnol.

7. Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio i gyflawni ardystiad CE yn gyntaf, ac yn dilyn yr hunanasesiad bydd yn gweithio tuag at baratoi ar gyfer yr asesiad annibynnol i gyflawni CE+. Bydd cyflawni CE+ yn gofyn am fuddsoddiad mewn technoleg a staff sydd â'r sgiliau i weithio'n llawn amser ar fynd i'r afael â materion seiberddiogelwch.

8. Mae cydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru hefyd yn ceisio cyflawni CE cyn gweithio tuag at ardystiad CE+ oherwydd heriau tebyg o ran adnoddau. Mae sefydliadau sector cyhoeddus eraill fel Heddlu Gogledd Cymru (wedi ennill ardystiadau tebyg i CE+. Fodd bynnag, maen nhw wedi buddsoddi'r adnoddau i gyflawni hyn oherwydd natur eu busnes a sensitifrwydd y data sydd ganddyn nhw.

9. Bydd yr adran TGCh yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau sylweddol i ddiogelu'r Gwasanaeth ond mae cael ardystiad fel Cyber Essentials yn cynnig sicrwydd annibynnol bod camau wedi'u cymryd o ddifrif i ddiogelu ein systemau cyfrifiadurol. Mae hefyd yn rhoi darlun cliriach i'r Gwasanaeth o unrhyw feysydd posibl lle gallai fod angen gwelliant.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion llesiant | AMHERTHNASOL |
| Cyllideb | CE yn £700 y flwyddyn<br>CE+ yn £2700 y flwyddyn. Mae angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer staff a thechnoleg hefyd. |
| Cyfreithiol | Amherthnasol, er y gallai'r Gwasanaeth wynebu canlyniadau cyfreithiol pe bai seiberymosodiad yn amharu ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. |
| Staffio | Byddai bodloni'r safonau a fyddai'n caniatáu achrediad CE+ yn gofyn am adnodd technegol medrus wedi'i neilltuo ar gyfer seiberddiogelwch. Nid oes gennym adnodd o'r fath ar hyn o bryd |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | AMHERTHNASOL |
| Risgiau | Mae'r risgiau o beidio â bod yn seiber-ddiogel yn bellgyrhaeddol ac yn gallu cynnwys: anallu i weithredu fel Gwasanaeth; costau ariannol mawr a llawer o amser i ddod dros unrhyw ymosodiad; niwed i enw da; a chymhlethdodau cyfreithiol. |

*This document is available in English* **Eitem agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, (Polisi Corfforaethol a Chynllunio)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill – Medi 2022** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ystod hanner cyntaf 2022/23 mae'r Gwasanaeth wedi mynychu 3,450 o achosion brys. Mae hyn yn gynnydd o 26.1% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

3 Mae'r cynnydd wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd o 81.3% yn nifer y mynychiadau i ddigwyddiadau brys nad ydynt yn rhai tân (698) sy'n cael eu dosbarthu fel Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig. Daw hyn yn dilyn newid gan y Prif Swyddog Tân newydd mewn polisi sy'n ymwneud â mynychu Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd ac asiantaethau partner tra ar yr un pryd yn cynyddu amlygrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y gymuned.

4 Serch hynny, mae'n braf gweld gostyngiad yn nifer y tanau mewn cartrefi (161 o'i gymharu â 208) y mae'r Gwasanaeth wedi eu mynychu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, ynghyd â gostyngiad yn nifer y marwolaethau tân (0) ac anafiadau difrifol (2). Yn ymwybodol y gallai hyn newid, bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu ymyriadau a mentrau atal tân i gefnogi diogelwch tân mewn cartrefi.

5 Mae cynnydd ôl-covid yn y ddarpariaeth o Wiriadau Diogel ac Iach yn ganlyniad cadarnhaol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hefyd gyda chyfanswm o 9,229 o Wiriadau Diogel ac Iach wedi'u cwblhau, o'i gymharu â 5,971 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Gydag ymrwymiad i gyrraedd targed diwedd y flwyddyn o 20,000 o wiriadau diogel ac iach, bydd y Gwasanaeth yn parhau i gynyddu nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach yn gadarnhaol yn ystod ail hanner y flwyddyn, gan weithio gyda phartneriaid i flaenoriaethu'r rhai sydd â risg uchel o dân yn eu cartrefi.

6 Maes newydd o adrodd ar gyfer y Panel Gweithredol yng nghanol y flwyddyn yw nifer y tanau gwyllt a fynychwyd. Gall tanau gwyllt fod o ganlyniad i dywydd eithafol yn gysylltiedig â newid hinsawdd ac mae'n ardal o dwf yn y DU o'i gymharu â lleihau tanau mewn tai yn ystod y degawd diwethaf. Gall tanau gwyllt fod yn ddigwyddiadau arbennig o heriol i'r Gwasanaeth ddelio â nhw oherwydd eu natur ansicr, maint posibl, graddfa a dwyster ac oherwydd yr amgylcheddau rhyngwyneb gwledig a gwledig-trefol y maent yn tueddu i ddigwydd ynddynt.

7 Fel y'i diffinnir gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC) mae tân gwyllt yn dân mewn glaswelltir, coetir neu gnydau sydd:

- yn cynnwys ardal ddaearyddol o leiaf un hectar (10,000 metr sgwâr neu 100m x 100m);
- â hyd fflam parhaus o fwy nag 1.5 metr;
- yn gofyn am adnodd ymroddedig o leiaf pedwar peiriant/adnodd tân ac achub;
- angen ymrwymo adnoddau am o leiaf chwe awr;
- yn fygythiad difrifol i fywyd, amgylchedd, eiddo a seilwaith.

8 Yn ystod hanner cyntaf eleni bu 54 o danau gwyllt yng Ngogledd Cymru, a fynychwyd gan gyfanswm cyfunol o 356 o gerbydau am dros 1097 o oriau. Bydd y maes perfformiad hwn yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd arno yng nghyfarfodydd Panel Gweithredol y dyfodol.

9 Bydd y rheolau ysgogi a weithredwyd yn ystod y pandemig yng Ngharchar y Berwyn a'r cyngor diogelwch tân a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwn yn parhau hefyd. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o danau a fynychwyd yn y carchar o 21 i 8 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

10 Yn dilyn ailstrwythuro'r Gwasanaeth o 1 Ebrill 2022, mae'r ffocws ar y targed argaeledd 20 gorsaf dân wedi arwain at gynnydd o 172 diwrnod (94%) o'i gymharu â 141 diwrnod (77%) yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Dyma gyfeiriad cadarnhaol arall, er ei fod yn ddyddiau cynnar a bydd gwaith yn parhau i recriwtio a chadw diffoddwyr tân yn ein gorsafoedd tân.

**ARGYMHELLIAD**

11 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

12 **Yr Holl Ddigwyddiadau**

Mae'r duedd ar i fyny yn nifer y digwyddiadau a fynychwyd wedi parhau, gyda 26.1% yn fwy o ddigwyddiadau wedi'u mynychu yn hanner cyntaf 2022/23 (3,450) nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (2,737). Er bod cynnydd mewn presenoldeb ar draws pob categori, y prif gyfrannwr oedd cynnydd o 81.3% mewn Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig. Dyma gynnydd disgwyliedig, yn dilyn newid yng ngweithdrefnau symudiadau'r Gwasanaeth i gynyddu ein presenoldeb mewn Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

13 **Tanau**

Roedd y tanau a fynychwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynyddu 22.7% i 1,294 o'i gymharu â 1,055 yn yr un cyfnod yn 2021/22.

14 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**

Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau 79.1% (230 i 412). Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd, i 272 o 146, gyda thanau 'Rhostir neu Weundir' yn brif gyfrannwr at y cynnydd (38 i 100).

Cofnodwyd cynnydd hefyd yn 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati' (46 i 84); 'Gwrychoedd' (13 i 26) a 'Prysgwydd Coed – yn cynnwys coed unigol nad ydynt mewn gardd' (11 i 25).

Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau 52.6% (78 i 119) gyda'r prif gyfranwyr at y cynnydd hwn yn 'Glaswelltir, Porfa, Pori ac ati'. (30 i 56) a 'Prysgwydd Coed - yn cynnwys coed unigol nad ydynt mewn gardd' (10 i 18).

15 **Tanau gwyllt**

Roedd 54 o danau gwyllt a fynychwyd gan 356 o gerbydau am dros 1097 awr yn ystod y cyfnod adrodd.

16 **Prif Danau**

Gostyngodd tanau cynradd ychydig (4.2%) o'i gymharu â'r un chwarteri 2021/22 (480 i 460), ac roeddent 3.2% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 475. Gostyngodd prif danau damweiniol 6.8% o 398 i 371, a'r prif gyfrannwr at y gostyngiad oedd gostyngiad mewn tanau mewn 'Cartrefi' (208 i 161) er bod tanau 'Amhreswyl' a Thanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau wedi cynyddu ychydig o 69 i 79 a 4. I 18 yn y drefn honno. Cynyddodd prif danau bwriadol, a oedd wedi bod ar duedd i lawr ers 2018/19, ychydig o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 (82 i 89).

17 **Tanau Eilaidd**

Cynyddodd nifer y tanau eilaidd 50.5% o 537 i 808, yn bennaf oherwydd cynnydd o 55.8% mewn tanau Eilaidd Damweiniol (337 i 525) gyda'r prif gyfranwyr at y cynnydd mewn 'Awyr Agored' (333 i 518), 'Glaswelltir, coetir a chnydau'. (146 i 272) ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (93 i 158). Cynyddodd tanau Eilaidd Bwriadol 41.5% (200 i 283) oherwydd cynnydd o 43.1% mewn 'Awyr Agored' (183 i 262) lle cynyddodd 'Glaswelltir, coetir a chnydau' ac 'Arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' 52.6% (78 i 119 ) a 35.4% (79 i 107) yn y drefn honno.

18 **Tanau Simnai**

Gostyngodd tanau simnai, sydd wedi bod ar duedd i lawr ers 2020/21 (49), ymhellach o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 (38 i 26).

19 **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs)**

Mynychodd y Gwasanaeth i 22.6% lai o danau damweiniol mewn cartrefi - 161 o'i gymharu â 208 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Gostyngodd tanau damweiniol mewn cartrefi mewn 'Tŷ meddiannaeth sengl' a 'Byngalo Meddiannaeth Sengl' o 118 i 93 ac o 35 i 17 yn y drefn honno, a'r prif gyfranwyr at y gostyngiad oedd 'Deunyddiau Llosgadwy sy'n Rhy Agos at Ffynhonnell Wres (neu dân)' (46 i 33), 'Coginio - Sosban Sglodion/Peiriant Ffrio Dwfn' (14 i bedwar) a 'Diffygion mewn Offer neu Declynnau' (20 i 13).

20 **Anafiadau/Marwolaethau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Doedd dim marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â 3 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Bu gostyngiad hefyd yn y nifer a anafwyd o 66 i 47, gyda dau berson yn dioddef anafiadau difrifol a 19 yn dioddef mân anafiadau.

21 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi yn 2022/23 (88.2%). Bu gostyngiad o 100 i 80 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle cafodd synhwyrydd mwg/gwres ei osod, ei weithredu a galwyd am gymorth o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hwn yn unol â'r flwyddyn hyd yma lle roedd gostyngiad mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a fynychwyd.

22 Bu gostyngiad o 42 i 41 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod ond na wnaeth weithredu, a'r rheswm mwyaf tebygol dros beidio â gweithredu oedd bod y synhwyrydd wedi'i osod yn gywir ar lwybr dianc (cyntedd, landin) ac nid mewn ystafell sydd fwyaf tebygol o fod yn darddiad tân (cegin, ystafell fyw). Bu gostyngiad o 26 i 19 mewn tanau damweiniol mewn cartrefi lle na chafodd unrhyw synhwyrydd ei osod a lle gosodwyd synhwyrydd a'i weithredu ond ni alwyd am gymorth, bu gostyngiad mewn digwyddiadau hefyd o 40 i 21.

23 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**

Bu gostyngiad o 36 i 28 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gydag 8 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

24 **Galwadau Diangen**

Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 1,458 o alwadau diangen - 161 (12.4%) yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2021/22 (1,297), a 208 (16.7%) yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 1,250. Bu cynnydd o 17.2% (123) o 714 i 837 yn y rhai a oedd wedi tarddu o systemau larwm tân awtomatig (AFA) ac roedd yn cynrychioli 57.4% o'r achosion o alwadau diangen.

25 **Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl (AFA)**

Bu cynnydd o 65.2% o 92 i 152 mewn AFAs yn bennaf oherwydd cynnydd mewn tanau mewn 'Ysbytai a Gofal Meddygol' (65 i 109) ac 'Addysg' (12 i 24), lle'r oedd prif achosion actifadu yn 'ddiffygiol' (42 i 68); 'Wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (10 i 25) ac 'anwedd' (3 i 10).

26 **AFAs Arall -Preswyl**

Er bod AFAs 'Arall-Preswyl ' wedi cynyddu 30.2%, o 53 i 69, gyda 'Llety Nyrsio'/Meddygon' yn cynyddu i 17 o 3, bu gostyngiad o 15 i 6 mewn 'Cartrefi Preswyl' gyda 'Coginio/tost wedi'i losgi' ac 'Ysmygu' yn brif achosion actifadu.

27 **AFAs mewn cartrefi**

Dangosodd AFAs mewn cartrefi duedd barhaus i fyny, gan gynyddu 8.3% o 568 i 615, gyda 'Meddiannaeth- tŷ sengl' yn brif gyfrannwr at y cynnydd, gan godi o 140 i 171.

28 O'r 615 o AFAs mewn cartrefi, 'Coginio/tost wedi'i losgi' oedd y prif achos actifadu, gan gynyddu o 303 i 313. Cofnodwyd cynnydd bychan hefyd mewn 'Yn ddamweiniol/Cychwyn yn ddiofal' (26 i 34); 'Profi' (17 i 26) ac 'anwedd' (10 i 18). Er hynny, bu gostyngiad yn 'Ysmygu' o 20 i 12.

29 **Galwadau Diangen Didwyll**

Cynyddodd galwadau diangen didwyll 4.8% o 565 i 592. Cynyddodd galwadau diangen didwyll mewn 'Amhreswyl' o 30 i 43 a'r prif gyfrannwr at y cynnydd oedd 'Arall' (10 i 17) ac 'Offer gorboethi' (sero i bedwar).

Cynyddodd galwadau diangen didwyll yn 'Breswyl Arall' ychydig o 14 i 19. Cynyddodd galwadau diangen didwyll 'Galwad Diangen - Eiddo heb ei Ddarganfod' o 30 i 57 ar gefn cynnydd 'Digwyddiad a Adroddwyd/Lleoliad heb ei Ddarganfod' (25 i 51).

Cynyddodd galwadau diangen didwyll yn 'Tir Glas, Coetir a Chnydau' o 71 hyd 77, gyda 'Llosgi Rheoledig' yn brif gyfrannwr i'r cynnydd (48 i 59), tra bod 'Digwyddiad a Adroddir/Lleoliad heb ei Ddarganfod' wedi gostwng o 19 i 8.

30 **Galwadau Diangen Maleisus**
Roedd cynnydd bychan mewn Galwadau Diangen Maleisus (18 i 29), gyda'r prif gyfrannwr at y cynnydd mewn 'Annedd' (5 i 24), lle cynyddodd ''Tanio'r Pwynt Galw Tân/Larwm' o 5 i 21.

31 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**
Roedd cynnydd o 81.3% mewn digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (385 i 698) y gellir eu priodoli i'r newid mewn polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân yn y gymuned pan fo angen.
Bu cynnydd o 167.9% (53 i 142) mewn digwyddiadau Ar goll o Gartref a Dull Mynediad (M o E) gyda 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' yn gweld cynnydd o 182% (50 i 141). O fewn y cynnydd i 'Gynorthwyo asiantaethau eraill', cynyddodd 'Cymorth Arall i'r Heddlu/Ambiwlans' o 48 i 136.

32 Bu cynnydd o 78.9% (245 i 438) mewn digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd '), gyda chynnydd mewn 'Achub Arall neu Ryddhau Personau' (31 i 71); 'Effaith mynediad neu allanfa' (41 i 58); 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' (rhwng 32 a 54), a 'Rhyddhau o lifft' (34 i 53). Bu cynnydd mewn 'Llifogydd' (20 i 28), lle'r oedd presenoldeb mewn 8 o'r digwyddiadau hyn i wneud lleoliad yn ddiogel, tra bod cyngor wedi ei roi mewn 12 digwyddiad.

33 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC)**
Mynychodd y Gwasanaeth 35.6% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (118), lle'r oedd 41 (34.7%) yn cynnwys tynnu'n rhydd neu ryddhau pobl. Bu cynnydd mewn galwadau i wneud cerbyd neu safle'n ddiogel, i 53.4% (42 i 63). Er i'r Gwasanaeth fynychu mwy o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, roedd canran y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a oedd yn cynnwys rhyddhau neu dynnu pobl yn rhydd yr un fath ag yn yr un cyfnod yn 2020/21 (34.7%).

34 **Archwiliadau diogel ac iach (SAWC)**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 54.6% yn fwy o wiriadau diogel a llesiant (9,229) o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22 (5,971). Cynyddodd archwiliadau diogel ac iach blaenoriaeth uchel o 2,590 i 3,189, gyda 1,824 (57.2%) mewn ymateb i atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Cynyddodd archwiliadau diogel ac iach blaenoriaeth ganolig o 1,125 i 1,772, ac roedd 509 (28.7%) ohonynt mewn ymateb i atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Cynyddodd archwiliadau diogel ac iach blaenoriaeth isel o 2,256 i 4,268, gyda 683 (16%) mewn ymateb i atgyfeiriadau gan asiantaethau partner. Ar ôl codi cyfyngiadau'r pandemig a theithio, cynyddodd archwiliadau diogel ac iach ffisegol ar y safle 129.2% (3,610 i 8,275), gyda gostyngiad o archwiliadau diogel ac iach o ganlyniad i hynny yn cael eu cwblhau dros y ffôn (2,361 i 954).

35 **Perfformiad Gorsafoedd**

Cyflawnwyd argaeledd arfaethedig 20 gorsaf ar 172 diwrnod (94.0%) allan o 183 diwrnod, o'i gymharu â 141 (77.0%) yn yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ond mae hyn yn dal yn is na'r 182 diwrnod (99.5%) a gyflawnwyd yn yr un cyfnod yn 2018/19.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Byddai peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro yn gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GOGLEDD CYMRU
# GWASANAETH TÂN AC ACHUB

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD:

**Hanner blwyddyn**

## Ebrill – Medi 2022


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent gael eu newid ryw ychydig.**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Pob Digwyddiad | 1-2 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliant | 3-4 |
| Prif Danau, yn ôl math o eiddo a chymhelliant | 5 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 6-7 |
| Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Synwyryddion Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs) | 9 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 10-11 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 12-13 |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau | 14-15 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT POBL YNG NGHYMRU** | |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 16-17 |
| Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf | 18 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 19-20 |

## 1 Pob Digwyddiad

**1.1** Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23, mynychodd y Gwasanaeth 3,450 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 26.1% ar yr un cyfnod yn 2021/22.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau a fynychwyd | 2022-23 | 1,575 | 1,875 | | | 3,450 | ↑ 26.1% | 2,669 | ↑ 29.3% |
| | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | | | 2,737 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2022-23 | 577 | 717 | | | 1,294 | ↑ 22.7% | 1,083 | ↑ 19.5% |
| | 2021-22 | 575 | 480 | | | 1,055 | | | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | 2022-23 | 327 | 371 | | | 698 | ↑ 81.3% | 336 | ↑ 107.7% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | | | 385 | | | |
| Cyfanswm galwadau diangen | 2022-23 | 671 | 787 | | | 1,458 | ↑ 12.4% | 1,250 | ↑ 16.7% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | | | 1,297 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

**Cynydd mewn Tanau** - priodolir y cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau tân (wrth gymharu C1 a C2 2021/22 i C1 a C2 2022/23) i'r haf poeth yn y DU. Arweiniodd hyn felly at gynnydd o 211 o ddigwyddiadau (19.5%) dros gyfartaledd y 3 blynedd flaenorol.

**Cynnydd mewn AFAs (annomestig)** - Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'r cynnydd mewn AFAs mewn lleoliadau annomestig. Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau hyn yn dod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda nifer o resymau actifadu ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda BIPBC i leihau'r actifiadau AFA hyn. Mae cynnydd hefyd mewn mynychu digwyddiadau domestig (cartrefi) ar gyfer AFAs a chyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Cynnydd mewn digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth** - Daw hyn yn dilyn apwyntiad y Prif Swyddog Tân newydd a newid mewn polisi sy'n ymwneud â mynychu Digwyddiadau Arbennig y Gwasanaeth, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd ac asiantaethau partner tra'n cynyddu ar yr un pryd amlygrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y gymuned.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Mae cyfanswm o 1,294 o danau wedi eu mynychu; cynnydd o 22.7% ers 1,055 yn 2021/22.

**2.2** **Prif danau–** Roedd gostyngiad o 4.2% mewn prif danau, o 480 i 460 o'i gymharu â chwe mis cyntaf 2021/22.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Roedd cynnydd o 50.5% mewn tanau eilaidd, gan gynyddu o 537 i 808.

**2.4** **Tanau simnai –** Roedd gostyngiad o 31.6% mewn tanau simnai, o 38 i 26, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | C.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | 2022-23 | 226 | 234 | | | 460 | ↓ 4.2% | 475 | ↓ 3.2% |
| | 2021-22 | 251 | 229 | | | 480 | | | |
| Tanau Eilaidd | 2022-23 | 332 | 476 | | | 808 | ↑ 50.5% | 566 | ↑ 42.8% |
| | 2021-22 | 293 | 244 | | | 537 | | | |
| Tanau Simnai | 2022-23 | 19 | 7 | | | 26 | ↓ 31.6% | 42 | ↓ 38.1% |
| | 2021-22 | 31 | 7 | | | 38 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Priodolir y cynnydd mewn tanau bwriadol damweiniol ac eilaidd i'r haf poeth yn y DU. Mewn cymhariaeth, roedd 2018/19 hefyd yn haf sych a sych iawn yng Ngogledd Cymru, gan ddangos niferoedd cymharol o ddigwyddiadau a fynychwyd gan y Gwasanaeth.


**Y camau i gefnogi cymunedau a lleihau digwyddiadau tân:**

- Parhau i ddarparu archwiliadau diogel ac iach ar draws Gogledd Cymru yn unol â'n strategaeth bresennol;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid strategol gyda'n timau Lleihau Llosgi Bwriadol i nodi risg posib i leihau digwyddiadau tân bwriadol;
- Presenoldeb ar Fwrdd Tanau Gwyllt newydd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cefnogi Siarter newydd Tanau Gwyllt Cymru Gyfan wedi'i drafftio i gefnogi'r gostyngiad mewn tanau eilaidd damweiniol a bwriadol;
- Aeth timau atal i sioeau amaethyddol, gan gynnwys sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i godi proffil effeithiau tanau gwyllt yng Ngogledd Cymru;
- Grŵp Llywio Ymgyrch (CSG) yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i barhau i hyrwyddo negeseuon diogelwch a thanau gwyllt yn rhagweithiol ar draws pob platfform cyfryngau.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 28 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, o'i gymharu â 36 yn ystod hanner cyntaf 2021/22.

**3.2** Yng Ngharchar y Berwyn, digwyddodd 8 tân bwriadol, o'i gymharu â 21 yn yr un cyfnod yn 2021/22.





| Categori | Blwydd yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn/ Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2022-23 | 41 | 48 | | | 89 | ↑ 8.5% | 93 | ↓ 4.3% |
| | 2021-22 | 40 | 42 | | | 82 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | 2022-23 | 185 | 186 | | | 371 | ↓ 6.8% | 382 | ↓ 2.9% |
| | 2021-22 | 211 | 187 | | | 398 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau damweiniol mewn cartrefi

**4.1** Aeth y Gwasanaeth i 161 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 47 (22.6%) yn llai nag yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22 (208), a 17.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 194.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 81 | 80 | | | 161 | ↓ 22.6% | 194 | ↓ 17.0% |
| | 2021-22 | 113 | 95 | | | 208 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Y camau i gefnogi cymunedau a lleihau tanau damweiniol mewn cartrefi (ADFs):**

- Parhau i weithio gyda grwpiau rhanbarthol i adnabod pobl sydd â risg uchel o dân;
- Parhau i dderbyn atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel gan asiantaethau partner;
- Cyd-fenter rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor i ffitio gwarchodwyr stôf mewn llety myfyrwyr i leihau tanau coginio;
- Parhau i gefnogi Diwrnodau Agored yr Orsaf (gan gynhyrchu archwiliadau diogel ac iach a darparu cyngor ar ddiogelwch);
- Cefnogi lleol a chenedlaethol parhaus (Cymru a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Tân (NFCC)) ymgyrchoedd yn unol â'n calendr Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) ein hunain;
- Diwrnodau allgymorth wedi'u rhedeg yn lleol ac wedi'u targedu a gefnogir gan asiantaethau allanol. Mae taflenni yn cael eu dosbarthu gan dimau Atal mewn ardaloedd sy'n ymweld yn ddiweddarach i ddarparu archwiliadau diogel ac iach;
- Rhoddodd ymgyrch ddiweddar Costau Byw yn Y Rhyl gyfle i dimau atal roi cyngor pellach ar ddiogelwch;
- Ymgyrchoedd rhagweithiol yn dilyn digwyddiadau sylweddol sy'n cynhyrchu atgyfeiriadau archwiliadau diogel ac iach a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau;
- Mae'r bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Cartrefi Conwy, a Gofal a Thrwsio'n parhau i nodi cyfeiriadau â blaenoriaeth uchel – rydym yn ymgysylltu â phobl sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai/lleoliadau gofal, a gallwn ddarparu ymyriadau lle bo angen.

## 5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi

**5.1** Doedd dim marwolaethau o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod hanner cyntaf 2022/23, o'i gymharu â thri yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd dau anaf difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi, o'i gymharu â 3 yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22. Gostyngodd nifer y gwiriadau rhagofalus o 22 i 12, tra bod nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi gostwng o 22 i 14 hefyd.

| Difrifoldeb yr anaf | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau Rhagofalus | 8 | 9 | 18 | 22 | 12 |
| Cymorth Cyntaf | 11 | 22 | 11 | 22 | 14 |
| Mân Anafiadau | 8 | 12 | 12 | 19 | 19 |
| Anafiadau Difrifol | 0 | 3 | 0 | 3 | 2 |
| Marwolaethau | 2 | 1 | 3 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | 29 | 47 | 44 | 69 | 47 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 10 | 37 | | | 47 | ↓ 19 |
| | 2021-22 | 43 | 23 | | | 66 | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 0 | 0 | | | 0 | ↓ 3 |
| | 2021-22 | 3 | 0 | | | 3 | |

| Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|
| 51 | ↓ 4 |


**Camau i gefnogi cymunedau drwy gynyddu perchnogaeth synhwyrydd mwg ac addysg diogelwch:**

- Mae'r Gwasanaeth yn parhau gyda'r nod o ddarparu 20,000 o wiriadau diogel ac iach eleni;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i adnabod y bobl fwyaf bregus yn y gymuned a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt;
- Parhau â'r addysg a'r ymwybyddiaeth o osod synwyryddion mwg yn gywir yng nghartrefi pobl er mwyn atal achosion actifadu diangen a galwadau diangen;
- Parhau i hyrwyddo profi synwyryddion mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau;
- Sicrhau bod ein cyngor yn rhoi manylion a chamau i'w cymryd os yw tân yn dechrau neu os yw synhwyrydd mwg yn actifadu mewn cartrefi.

## 6 Larymau Mwg - Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (ADFs)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi, er nad oedd pob un yn mynd ymlaen i weithio. Yn 19 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, nid oedd unrhyw synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** Yn 161 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, roedd 140 wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn/ Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg wedi osod ac wedi seinio a rhoi rhybudd | 2022-23 | 36 | 44 | | | 80 | ↓ 20.0% | 92 | ↓ 13.0% |
| | 2021-22 | 54 | 46 | | | 100 | | | |
| Larwm mwg wedi'i osod, wedi seinio ond heb rhoi rybudd | 2022-23 | 17 | 4 | | | 21 | ↓ 47.5% | 35 | ↓ 40% |
| | 2021-22 | 20 | 20 | | | 40 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2022-23 | 22 | 19 | | | 41 | ↓ 2.4% | 43 | ↓ 4.7% |
| | 2021-22 | 26 | 16 | | | 42 | | | |
| Larwm mwg ddim wedi'i osod | 2022-23 | 6 | 13 | | | 19 | ↓ 26.9% | 24 | ↓ 20.8% |
| | 2021-22 | 13 | 13 | | | 26 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Yn hanner cyntaf 2022/23 roedd 1,458 o alwadau diangen; cynnydd o 12.4% o 1,297 yn yr un cyfnod yn 2021/22. Roedd cynnydd o 17.2% mewn AFAs o 714 i 837. Cynyddodd galwadau diangen didwyll 4.8% o 565 i 592.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 611 | 627 | 613 | 714 | 837 | 651 |
| Didwyll | 599 | 556 | 615 | 565 | 592 | 579 |
| Maleisus | 15 | 23 | 18 | 18 | 29 | 20 |
| Cyfanswm | 1,225 | 1,206 | 1,246 | 1,297 | 1,458 | 1,250 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | 2022-23 | 671 | 787 | | | 1,458 | ↑ 12.4% | 1,250 | ↑ 16.6% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | | | 1,297 | | | |
| AFA | 2022-23 | 417 | 420 | | | 837 | ↑ 17.2% | 651 | ↑ 28.5% |
| | 2021-22 | 311 | 403 | | | 714 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2022-23 | 240 | 352 | | | 592 | ↑ 4.8% | 579 | ↑ 2.3% |
| | 2021-22 | 278 | 287 | | | 565 | | | |
| Maleisus | 2022-23 | 14 | 15 | | | 29 | ↑ 61.1% | 20 | ↑ 45% |
| | 2021-22 | 6 | 12 | | | 18 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Mae cyfanswm o 1,458 o alwadau diangen (FA) wedi eu mynychu yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Daeth 837 o systemau larwm tân awtomataidd – mae hyn 28.5% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 651.
Roedd 615 o'r AFAs hyn mewn cartrefi a allai fod oherwydd y nifer cynyddol o systemau awtomatig llinell ofal mewn cymunedau.
Roedd 52 AFA mewn eiddo Amhreswyl, cynnydd o 60 y cyfnod adrodd hwn, yn deillio o gynnydd yn nifer y galwadau a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eiddo ymddiriedolaeth BIPBC.
Roedd 69 yn 'Preswyl Arall' sydd hefyd yn cynnwys llety myfyrwyr a lleoliadau gofal.

**Yr hyn yr ydym yn ei wneud:**


- **AFAs mewn 'Cartrefi' –** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio i gadw'r bobl mwyaf bregus yn ddiogel yn y gymuned, gydag ymgyrchoedd Atal wedi'u targedu a gweithio gyda darparwyr gofal drwy osod systemau llinell ofal. Gall hyn gynyddu nifer yr tanau damweiniol mewn cartrefi rydym yn eu mynychu mewn cartrefi, ond bydd pob tro yn rhoi cyfle i ni roi mwy o gyngor a chyngor penodol weithiau.

- **AFAs mewn safleoedd 'Amhreswyl' -** Rydym yn parhau i weithio gyda BIPBC i leihau gweithredoedd diangen ac mae gan BIPBC gynllun ar waith i leihau AFAs diangen y mae'r Gwasanaeth yn parhau i'w monitro.

- **AFAs mewn 'Arall-Preswyl' -** Fel uchod, mae gwaith yn parhau i gefnogi BIPBC i leihau AFAs damweiniol mewn cartrefi diangen mewn lleoliadau gofal. Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i leihau'r AFAs diangen hyn drwy ymgyrchoedd Atal wedi'u targedu.

## 8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Bu cynnydd o 81.3% i 698 yn nigwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ystod hanner cyntaf 2022/23, o'i gymharu â 385 yn yr un cyfnod yn 2021/22. Bu cynnydd o 35.6% o 87 i 118 mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, tra bod digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y ffordd' wedi cynyddu 94.6%, o 298 i 580.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 194 | 199 | 194 | 245 | 438 |
| GRFfs | 106 | 111 | 49 | 87 | 118 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 35 | 36 | 35 | 53 | 142 |
| Cyfanswm | 455 | 346 | 278 | 385 | 698 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | 2022-23 | 327 | 371 | | | 698 | ↑ 81.3% | 336 | ↑ 107.7% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | | | 385 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC) | 2022-23 | 53 | 65 | | | 118 | ↑ 35.6% | 82 | ↑ 43.9% |
| | 2021-22 | 31 | 56 | | | 87 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | 2022-23 | 274 | 306 | | | 580 | ↑ 94.6% | 254 | ↑ 128.3% |
| | 2021-22 | 121 | 177 | | | 298 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**


Mynychwyd 698 o ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig – cynnydd o 81.3% o 385.

Mynychwyd 580 o ddigwyddiadau heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd - cynnydd o 94.6% o 298.

Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn mynychu digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig yw penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu ei gefnogaeth i asiantaethau eraill ac i fod yn fwy gweladwy yng nghymunedau Gogledd Cymru yn dilyn y pandemig.

## 9 Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau

**9.1** O'r 118 gwrthdrawiad ar y ffordd a fynychwyd yn hanner cyntaf 2022/23, roedd 41 (34.7%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person anafedig o'r cerbyd. Er bod 68 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau a gafodd mwyafrif yr anafedig.




| | |
|---|---|
| **118** | O wrthdrawiadau ar y ffordd |
| **68** | O ddigwyddiadau lle'r oedd pobl wedi dioddef anaf |
| **41** | O ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau pobl |

| **Difrifoldeb anafiadau *** | **Nifer o bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 12 |
| Cymorth Cyntaf | 15 |
| Man Anafiadau | 52 |
| Anafiadau - Difrifol | 40 |
| Marwolaethau | 6 |

**Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffordd ar gael - caiff y rhain eu cofnodi yn y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân*

**Naratif**

Mynychodd 118 o wrthdrawiadau ar y ffordd- cynnydd o 35.6% ers 87 yn 2021/22.

Roedd 41 (34.7%) yn ymwneud â thorri pobl allan / rhyddhau pobl.

**Camau a gymerwyd i leihau nifer y gwrthdrawiadau ar y ffordd:**


- Mae timau atal yn parhau i weithio gyda phartneriaid i dargedu gyrwyr ifanc, beicwyr modur, a gyrwyr hŷn (Ymgyrch Darwin - beiciau modur) i helpu i leihau digwyddiadau traffig ar y ffordd yng Ngogledd Cymru.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Heddlu Gogledd Cymru (NWP), yn rhan o'r ymyrraeth 'Ffrindiau Peryg Bywyd' sy'n manylu ar ganlyniadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd (RTC) o farwolaethau ac anafiadau difrifol.
- Parhau i ddefnyddio addysgwyr sy'n targedu pobl ifanc i ddarparu rhaglenni ac ymyriadau addysgol (stori Olivia).

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1:

*1.1 Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.*

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 9,229 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 3,016 (32.7%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | 2022-23 | 35% | 30% | | | 33% | ↓ 4pp | 33% | → 0pp |
| | 2021-22 | 40% | 35% | | | 37% | | | |
| *Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd. | | | | | | | | | |

Cyfnod Adrodd: Ebrill – Medi 2022

**Naratif**


Cwblhawyd 9,229 o archwiliadau diogel ac iach - 3,258 (54.6%) yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2021.
Roedd 3,016 (32.7%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner gyda 1,824 yn Brif Flaenoriaeth.
1,772 o archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Canolig, cynnydd o 57.5% ers 1,125.
4,268 o archwiliadau diogel ac iach Blaenoriaeth Isel, cynnydd o 89.2% ers 2,256.

**Cymryd camau i wella perfformiad a sylwadau:**

- Dychwelyd i weithgaredd archwiliadau diogel ac iach cyn Covid-19 yn dilyn gwaith ail-ymgysylltu cadarnhaol gyda'n hasiantaethau partner;
- Parhau i ddarparu 20,000 o archwiliadau diogel ac iach fel y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn yr adroddiad;
- Parhau i ddarparu ymgyrchoedd Atal a chyngor diogelwch yn unol â'n calendr ymgyrch Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) a Chyfathrebu Corfforaethol;
- Parhau i ddarparu ymyrraeth bwrpasol neu wedi'i deilwra i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned.

## 11 Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf

**11.1** Ar 172 (94%) allan o 183 diwrnod cafwyd safon gwasanaeth argaeledd 20 gorsaf - cynnydd o 22% ers yr un cyfnod yn 2021/22 (141 o ddyddiau - 77%).



## GEIRFA

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>a) ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |

| | |
|---|---|
| Galwadau diangen – AFA | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad. |
| Adeilad - Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hostel a strwythurau di-barhaol preswyl. |
| Adeilad - Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad - Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, gwestai a sefydliadau preswyl busnesau gwely a brecwast, Cartrefi Nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyrennau, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygu Amcanion Gwella a Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Adolygu amcanion hirdymor yr Awdurdod Tân ac Achub sydd yn ei Gynllun Corfforaethol 2021-24.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Bob mis Mawrth mae'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn cyhoeddi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, gan nodi'r amcanion gwella a lles y cytunwyd arnyn nhw ac amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd yr Awdurdod ei ddiweddariad diwethaf yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2021-24 yn gynharach eleni.

3. Er nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi pa mor aml y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus newid ei amcanion, mae'n ofynnol eu bod yn cynnal adolygiad blynyddol o'u hamcanion llesiant i asesu a ydyn nhw'n dal i fod yn berthnasol ac yn briodol ai peidio.

4. Dros y misoedd nesaf, bydd Swyddogion yn edrych eto ar gynnwys Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24 er mwyn diweddaru'r rhestrau o gamau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob amcan strategol. I'r perwyl hwn, gofynnir i'r Awdurdod ystyried a yw'n dymuno parhau i ddilyn yr un amcanion hirdymor y flwyddyn nesaf, neu fel arall awgrymu newidiadau i'w hymgorffori yn fersiwn diwygiedig Cynllun Corfforaethol 2021-24 ar gyfer blwyddyn nesaf.

## ARGYMHELLIAD

5. Gofynnir i'r Aelodau:
   - i) gadarnhau bwriad yr Awdurdod i barhau i ddilyn ei saith amcan hirdymor presennol yn 2023/24; a
   - ii) gwneud cais i Swyddogion baratoi fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Corfforaethol 2021-24 i'w gymeradwyo yn Ebrill 2023.

## CEFNDIR

6. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu hamcanion gwelliant yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'u hamcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin yn union yr un peth.

7. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae'n rhaid i hyn gynnwys:

   a) gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o wneud y cyfraniad mwyaf posib at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a osodwyd ar gyfer Cymru gyfan;

   b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

8. Yn ystod cylch cynllunio arferol, bydd yr Awdurdod yn amlinellu amcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ystod yr hydref/gaeaf, ac ym mis Mawrth bydd yn cymeradwyo cynllun sy'n nodi'r camau tymor byrrach ar gyfer cefnogi ei amcanion tymor hwy.

9. Yn 2023-24 bydd Swyddogion yn trafod cylch nesaf y Cynllun corfforaethol â'r Awdurdod ar gyfer 2024 a'r cyfnod wedi hynny yn y gobaith o'i weld yn esblygu i fod yn gynllun pum mlynedd ar gyfer 2024-29.

## GWYBODAETH

10. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod saith amcan llesiant hirdymor yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24. Dyma'r amcanion hynny:

- **Amcan 1:** Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng ngogledd Cymru.
- **Amcan 2:** Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella pa mor gydnerth ydyn nhw.
- **Amcan 3:** Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosib, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- **Amcan 4:** Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.
- **Amcan 5:** Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg.
- **Amcan 6:** Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy amgylcheddol ymwybodol er mwyn lleihau effaith ein gweithgarwch ar yr amgylchedd.
- **Amcan 7:** Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, a hynny yn ystod prosesau caffael hefyd.

11. Yn dilyn adolygiad blynyddol ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub blaenorol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru. Roedd hwn yn cydnabod parhad rhai camau yn y dyfodol oherwydd bod ffactorau allanol wedi dylanwadu ar gyfradd y cynnydd mewn rhai meysydd ac effaith ymgorffori newidiadau llywodraethu mewnol a oedd i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2022.

12. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu ei amcanion o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid oes rhaid iddo eu newid. Wrth asesu a yw ei amcanion yn parhau i fod yn briodol, rhaid i'r Awdurdod ystyried i ba raddau:

- maen nhw'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant i Gymru;
- maen nhw'n gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy – h.y. eu bod nhw'n helpu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- mae'r Awdurdod yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

13. Os yw'r asesiad yn nodi bod angen newid unrhyw amcanion, byddai disgwyl i'r Awdurdod egluro beth sydd wedi newid, a pham bod y newid wedi digwydd.

14. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022, cymeradwyodd yr Awdurdod Asesiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 ar gyfer ei gyhoeddi ar ei wefan. Mae'r Asesiad hwn yn disgrifio cynnydd a chyflawniadau'r llynedd i gefnogi amcanion yr Awdurdod. Mae hefyd yn egluro sut mae amcanion pob un o'r Awdurdodau'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant i Gymru ac yn cadw at egwyddor datblygu cynaliadwy.

15. Nid oedd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn dangos bod angen adolygu na newid y saith amcan hirdymor presennol.

16. Mae llawer o'r camau gweithredu sy'n cefnogi'r amcanion yn dangos bod yr Awdurdod yn parhau i ystyried yr amcanion fel rhai tymor hir drwy ei rôl atal yn y gymuned, gan helpu i addysgu ac arfogi pobl i fyw bywydau diogel a llawn boddhad. Hefyd, mae'n gweithredu'n gyfrifol i warchod cynefinoedd naturiol a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol.

17. Bydd rhai o'r camau gweithredu o reidrwydd yn wahanol yn 2023/24 wrth i'r Awdurdod barhau i ddilyn camau arbed arian a cheisio ymateb i ddylanwadau mewnol ac allanol, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol diwygiedig 2021-24 er mwyn i'r Awdurdod ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol i gadarnhau neu ddiwygio amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae yna berthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwireddu'r amcanion o fewn Cynllun Corfforaethol 2021/24 a faint o adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliant. |
| Staffio | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn ni ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Yn lleihau'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/26 a Chyllideb 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 I gyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023/26 a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 i'r Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) osod cyllideb ariannol gytbwys bob blwyddyn a chadarnhau ffigyrau cyfraniad dros dro i bob awdurdod cyfansoddol erbyn diwedd y mis Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Caiff y cyllid sydd ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol ei gadarnhau hefyd.

4 Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 a'r MTFS yn cynnwys nifer o dybiaethau, risgiau a'r ansicrwydd sydd wedi'u nodi yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) gymeradwyo cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar gynnydd mewn cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol o £5.32m;
(ii) nodi'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb;
(iii) cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; a
(iv) argymell cael cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2023.

## ARSYLWADAU GAN BWYLLGORAU ERAILL A DYDDIAU CYNLLUNIO AELODAU

6 Mae'r cynigion a nodir yn y papur hwn yn cyd-fynd â'r dull gosod cyllideb a amlinellir ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Hydref 2022, gan gynnwys y risgiau a'r ansicrwydd cysylltiedig.

7 Yn ystod cyfarfodydd sefydlu a chynllunio'r aelodau a gynhaliwyd ar 13 Mehefin a 6 Hydref 2022, rhoddwyd trosolwg o'r modelau cyflenwi gwasanaethau a'r heriau cysylltiedig sy'n wynebu'r Awdurdod.

## CEFNDIR

8 Mae Cynllun Gwella a Llesiant 2023/24 yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod:

**Amcan 1:** gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng ngogledd Cymru
**Amcan 2:** parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella pa mor gydnerth ydynt
**Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosib, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
**Amcan 4:** parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
**Amcan 5:** cynnal gweithlu amrywiol cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg
**Amcan 6:** datblygu ffyrdd o ddod yn fwy amgylcheddol ymwybodol er mwyn lleihau effaith ein gweithgarwch ar yr amgylchedd
**Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael

9 Darparodd adroddiad y Prif Swyddog Tân i Aelodau ym mis Medi 2021 asesiad sefyllfa. Roedd hyn wedi cadarnhau mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i ddiwallu gofynion presennol a gofynion y dyfodol.

10 Yn dilyn yr asesiad hwn, cymeradwyodd yr Awdurdod nifer o adolygiadau mewnol gan gynnwys adolygu gofal tân, adolygiad o'r system diffoddwyr tân ar ddyletswydd (criwiau ar-alwad) ac adolygiad hyfforddiant i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân. Mae'r adolygiadau hyn yn parhau, er bod cynigion y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn adeiladu ar yr asesiadau cychwynnol gan gynnwys datblygu capasiti a mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch.

11 Rhoddwyd y cynigion ar gyfer gosod y gyllideb i Aelodau yn yr adroddiad i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022. Mae cynigion y gyllideb a nodir yn yr adroddiad hwn yn sicrhau y dilynir dull strategol o gynllunio ariannol a chynllunio cyllid er mwyn gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

**CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2023/24**

12 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb fanwl ac amlinellir y rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r amheuon yn Atodiad 1.

13 Mae'r broses gynllunio wedi cadarnhau gofyniad gwariant net ar gyfer 2023/24, sef £44.72m sy'n gynnydd o flwyddyn i flwyddyn o £5.30m.

| **£'m** | **2022/23** | **2023/24** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 28.20 | 31.76 | 3.26 |
| Heb fod yn dâl (net o incwm) | 11.21 | 12.95 | 2.04 |
| **Cyfanswm** | **39.41** | **44.71** | **5.30** |

14 Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng cyllideb refeniw 2022/23 a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24. Manylir ar gyfraniad pob awdurdod cyfansoddol yn atodiad 4.

| | £'000 |
|---|---|
| **Cyllideb 2022/23** | **39,410** |
| Tybiaeth gyflog wreiddiol (fesul MTFP) | 500 |
| Dyfarniadau cyflog uwchben y rhagdybiaethau a gynlluniwyd | 1,700 |
| Cynnydd mewn darpariaeth hyfforddiant | 350 |
| Cynnydd mewn gwydnwch gweithredol | 520 |
| Gwytnwch a gallu corfforaethol | 100 |
| Diogelwch Tân Busnes | 100 |
| Costau ynni | 890 |
| Cynydd yn y gyfradd llog | 600 |
| Taliadau cyfalaf yn ymwneud â phrynu tir | 150 |
| Pwysau chwyddiant eraill | 394 |
| **Gofyniad cyllideb 2023/24** | **44,714** |

15 Mae costau cyflogau gweithwyr dros 70% o wariant net ac mae drafft y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn £31.76m. Oherwydd trafodaethau cyflog dyledus a chwyddiant cyflog mae'r Awdurdod yn wynebu ymrwymiadau ychwanegol ac mae hyn yn parhau i fod yn faes sy'n achosi ansicrwydd sylweddol. Y dybiaeth gynllunio bresennol yw bod hawliad cyflog 2022/23 wedi'i setlo ar 5%, a bod y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 yn 5% i'r holl staff. Gan nad yw dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi'u cwblhau eto mae hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol o ran cynllunio. Mae gwaith yn parhau i sicrhau rheolaeth ofalus o gostau gweithwyr, gan gynnwys parhau i reoli tâl amrywiol.

16 Darperir dadansoddiad o gostau'r gweithwyr isod sy'n cadarnhau bod dros 78% o'r costau'n ymwneud â gweithwyr sy'n gweithio mewn rolau darparu gwasanaethau.

| **Dadansoddi'r Gyllideb Staffio** | **2023/24 £'m** | **2024/25 £'m** | **2025/26 £'m** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ymateb | 22.229 | 23.068 | 23.852 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.414 | 2.514 | 2.612 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 7.114 | 7.358 | 7.618 |
| **Gofyniad Cyllideb Staffio** | **31.757** | **32.940** | **34.082** |

17 Cynyddodd cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer diffoddwyr tân yn ystod 2019/20 yn dilyn ailbrisiad 2016 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth gychwynnol ac nid oes penderfyniad ar gyfer y sefyllfa tymor hwy wedi'i wneud eto. Nid yw'r ddarpariaeth o gefnogaeth ar gyfer 2023/24 ac ymlaen wedi'i gwblhau eto, ac mae hyn yn achosi risg o £1.1m. Ar hyn o bryd, yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, rhagdybir y bydd yr un lefel o arian yn cael ei roi.

18 Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, cyflwynodd deiliaid y gyllideb gynlluniau adrannol yn manylu ar eu gwariant disgwyliedig nad ydynt yn ei thalu. Ystyriwyd y risgiau penodol ym mhob pennawd ar gyfer y gyllideb gan arwain at gyllideb arfaethedig ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a thaliadau trydydd parti o £12.95m.

19 Mae hyn yn adlewyrchu pwysau anochel y gost a brofir ar draws pob maes sydd ddim yn gostau cyflogau. Yn benodol, nodwyd yn yr adroddiad i'r Awdurdod ar 17 Hydref bod pwysau costau ynni o £0.9m a nodwyd hefyd bod cymorth y Llywodraeth ond yn cael ei warantu tan 31 Mawrth 2022.

20 Mae'r gofyniad i'r sector cyhoeddus gyflawni sero-net erbyn 2030 wedi creu'r angen i gynnal adolygiad o effeithlonrwydd ynni'r ystâd a lefel yr allyriadau cerbydau. Er nad yw cyllideb benodol wedi'i dyrannu ar gyfer strategaethau i leihau ynni, mae'r holl waith caffael yn cynnwys camau i leihau ôl troed carbon yr Awdurdod.

21 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Mae sawl cynnydd yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr wedi digwydd yn ystod 2022/23 ac mae'r cyfraddau benthyca bellach yn 5.2%. Mae hyn yn amrywiant sylweddol i'r cyfraddau isel sydd wedi bod ers nifer o flynyddoedd ac mae'r gyllideb ariannu cyfalaf wedi cael ei chynyddu o £0.866m i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n dal i ddirywio. Mae costau llog o £0.15m wedi cael eu ffactora yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 mewn perthynas â phryniant tir posib. Bydd y cynllun hwn yn amodol ar gymeradwyaeth ar wahân gan Aelodau.

22 Bydd yr ansicrwydd economaidd sy'n deillio o faterion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi fyd-eang a chwyddiant uchel yn cael ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn creu ansicrwydd a risgiau sylweddol a allai olygu bod angen diwygio dyraniadau cyllideb i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n newid.

**CYNLLUN CYFALAF DRAFFT 2023/24**

23 Amlinellir y cynllun cyfalaf drafft yn Atodiad 3 ac mae'n cynnig gofyniad cyfalaf o £6.53 miliwn ar gyfer 2023/24. Mae prif elfen y cynllun yn ymwneud â'r posibilrwydd o brynu tir er mwyn darparu ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi newydd a'r buddsoddiad hanfodol mewn offer tân newydd.

24 Mae'r cynllun yn cynnwys cyflwyno cyllid o £0.375 o 2022/23, sy'n ymwneud â disodli'r tyrau hyfforddi presennol sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Mae'r tendrau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

25 Dim ond cynlluniau adeiladu y gellir eu cwblhau'n ddiogel yn yr hinsawdd sydd ohoni sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu cyn i'r cyllid gael ei ryddhau.

26 Mae gwaith yn parhau er mwyn lleihau allyriadau carbon gan gynnwys defnyddio cerbydau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae nifer o gerbydau trydan a hybrid wedi'u rhoi ar les i swyddogion ar ddyletswydd, i gymryd lle cerbydau disel. Eu rhoi ar les yw'r dull mwyaf cost-effeithiol ar hyn o bryd o gaffael, ar gyfer y mathau hyn o gerbydau, ac mae'n galluogi'r Adran Fflyd i adolygu eu haddasrwydd a'u perfformiad a manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf.

27 Mae'r gwariant cyfalaf ar gyfer y dyfodol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Canolfan Hyfforddi newydd i ddisodli'r trefniadau presennol. Mae'r ddarpariaeth o hyfforddiant wedi cael ei nodi gan Gyngor Tân Cymru fel maes ffocws allweddol ac nid yw'r trefniadau presennol yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'r prosiect ar ei gamau cychwynnol ar hyn o bryd ac er bod darpariaeth ariannol wedi'i chynnwys yn rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig, bydd y cynigion manwl yn destun trefniadau cymeradwyo ar wahân. Mae'r amcangyfrifon cyfalaf cychwynnol wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

28 Bydd y gwariant cyfalaf yn effeithio ar y taliadau ariannu cyfalaf yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod ac maent wedi'u cynnwys o fewn y cynllun ariannol tymor canolig y manylir arno yn Atodiad 2.

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026/26 (MTFS)**

29 Darperir yr MTFS drafft o fewn Atodiad 2 ac mae'n asesu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaethau. Gwariant sy'n gysylltiedig â gweithwyr yw'r brif gost o hyd ac mae'r strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar dybiaeth gynllunio o ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023/24, gan leihau i 3% dros y cyfnod cynllunio sy'n weddill.

30 Amlinellir y risgiau a'r amheuon allweddol sy'n ymwneud â'r MTFS yn atodiad 1. Y dybiaeth gynllunio bresennol ar gyfer yr MTFS yw y bydd cyllid grant ar gyfer y prosiect Airwave yn parhau a'r costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o brisiad Adran Actiwaraidd Llywodraeth 2016 (GAD) y bydd cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau i gael ei ariannu'n ganolog.

31 Mae gwariant cyfalaf dros y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod mewn perthynas â disodli offer tân a cherbydau arbennig, yn ogystal â disodli systemau TGCh. Mae'r MTFS hefyd yn cynnwys costau dros dro sy'n gysylltiedig â phrynu tir, ac adeiladu Canolfan Hyfforddi newydd, ac mae'n nodi y bydd hyn yn destun cymeradwyaeth a fforddiadwyedd ar wahân.

**CYFRANIADAU AWDURDOD CYFANSODDOL**

32 Mae cyfraniadau'r Awdurdod Cyfansoddol arfaethedig wedi'u cofnodi yn Atodiad 4.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | Ar hyn o bryd, amcangyfrif presennol y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfraniadau awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24 yw £2.34m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb refeniw gytbwys. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae asesiad risg wedi'i gynnal ar y gyllideb ddrafft a nodwyd y risgiau canlynol:<br>• mae'r gyllideb yn seiliedig ar dybiaeth y bydd dyfarniadau cyflog yn 5%. Nid oes cytundebau cenedlaethol wedi'u gwneud eto;<br>• y dybiaeth gynllunio yw y bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cynnydd mewn pensiynau diffoddwyr tân yn parhau. Os na chaiff hyn ei gefnogi mae risg ariannol o £1.1m;<br>• y dybiaeth gynllunio yw y bydd cyllid o £0.4m gan Lywodraeth Cymru yn parhau o ran y rhwydwaith gwasanaeth brys cenedlaethol (grant Airwave); mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2023/24. Nid oes asesiad o'r costau wedi'i gynnal eto; a<br>• mae'r ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyffredinol a phrinder yn y gadwyn gyflenwi yn parhau ac nid oes costau ychwanegol wedi'u ffactora yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. |

| Pennawd | Tybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau'r gweithiwr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi'u llunio ar fodelau darparu gwasanaethau presennol a'u diweddaru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd o fewn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân yn 2021. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff ac i sicrhau capasiti gweithredol a chorfforaethol.<br><br>• Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gyflwynwyd i aelodau ym mis Rhagfyr 2021 yn tybio dyfarniadau cyflog cenedlaethol o 2%. Nid yw'r asesiad hwn bellach yn ddilys ac mae angen darpariaeth sylweddol i fynd i'r afael â dyfarniadau cyflog 2022/23 (sydd heb eu cwblhau eto ar gyfer diffoddwyr tân) a dyfarniadau 2023/24. Mae cynigion y gyllideb yn tybio bod anghydfod cyflog diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23 wedi'i setlo ar 5%. Mae amcangyfrif dros dro o 5% ar gyfer 2023/24 hefyd wedi'i gynnwys.<br><br>• Mae'r cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau yswiriant gwladol sy'n berthnasol o fis Ebrill 2022 bellach wedi'i wyrdroi yn dilyn canlyniad mini-gyllideb Medi 2022.<br><br>• Tybir y bydd y cynnydd i gyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwr sy'n deillio o werthiant diwethaf Adran Actiwari y Llywodraeth yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23, er y rhagwelir aneddiadau uwchben darpariaeth y gyllideb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae darpariaeth wedi'i wneud ar gyfer costau cyson setliad o 5% ar gyfer 2022/23.<br><br>• Roedd y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau LGPS ar gyfer 2022/23. Roedd hyn yn uwch na'r asesiad cynllunio gwreiddiol ar gyfer 2022/23 ac mae wedi arwain at bwysau cyson yn y gyllideb.<br><br>• Mae cynllun y gyllideb yn tybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llu o ddigwyddiadau'n digwydd, bydd pwysau'n codi ar y gyllideb. Y dybiaeth yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br><br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto y bydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn parhau ar ei lefel bresennol o £1.1m.<br><br>• Ym mis Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl i her gyfreithiol y trefniadau pensiwn trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Bydd yr adferiad yn berthnasol i holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Mae'r canlyniad ariannol yn anhysbys ac nid oes darpariaeth wedi'i wneud. |

| Pennawd | Tybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | • Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'r Ddeddf Diogelwch Tân (2021) wedi cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Bydd cynigion y gyllideb yn adlewyrchu staffio a hyfforddiant diwygiedig i staff er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu ymateb i'r newidiadau hyn. | • Mae'r cynllun pensiwn ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar delerau ac amodau llywodraeth leol yn destun prisiad bob pedair blynedd. Mae'r prisiad diweddaraf yn cael ei gwblhau a bydd yn dod i rym o fis Ebrill 2023. Nid yw'n hysbys a fydd hyn yn effeithio ar gyfraniadau'r cyflogwr ac mae'n parhau i fod yn risg ar hyn o bryd.<br><br>• Mae'r cynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân yn destun prisiad bob pedair blynedd. Mae'r canlyniadau'n llywio'r cyfraddau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr a bennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd canlyniad y prisiad nesaf yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ac mae disgwyl iddo gynyddu cyfraddau cyfraniad cyflogwyr o'u lefel bresennol o 27.3% o gyflog pensiwn. Er na fydd hyn yn effeithio ar y flwyddyn ariannol 2023/24 mae'n parhau i fod yn risg ac yn destun ansicrwydd dros y cylch cynllunio tymor canolig. |
| Heb fod yn Gyflog | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt yn talu yn cael eu llunio ar fodelau darparu gwasanaethau presennol a'u diweddaru i adlewyrchu rheidrwydd sy'n deillio o asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Mae'r galw ar y gyllideb nad yw'n gyflog yn cynyddu ymhellach gan effaith chwyddiant a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi.<br><br>• Mae cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllideb a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol, ond mae rhywfaint o waith amcangyfrif yn rhan ohonynt. Lle gellir mesur pwysau'r costau, mae'r rhain wedi cael eu nodi ar wahân (e.e. ynni) | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflog ac yn ymdrechu i reoli pwysau'r costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hwn yn parhau i fod yn risg oherwydd y pwysau parhaus ar y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau a phroblemau o ran argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd ansefydlogrwydd sylweddol, nid yw'n bosibl mesur yr effaith yn llawn.<br><br>• Mae cost nwy a thrydan yn bwysau cost amlwg ac mae'r rhagdybiaethau cynllunio presennol yn cynnwys cynnydd o £0.9m o'r asesiad cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig. |

| Pennawd | Tybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | | • Mae gwaith caffael cenedlaethol Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys yn mynd rhagddo ond mae oedi sylweddol yn y gwaith hwnnw. Mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn ac ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn derbyn £0.4m gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r gwasanaeth presennol. Y dybiaeth yw y bydd y cymorth refeniw presennol yn parhau er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto.<br><br>• Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi'u ffurfio eto. Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen yn ystod 2023/24 ac nid oes darpariaeth benodol o ran cyllideb wedi'i chynnwys. |
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofyniad ariannu cyfalaf ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddylanwadu gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24 ac effaith y cynnydd mewn cyfradd llog. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn achosi risg sylweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd gwaith modelu ariannol pellach yn cael ei wneud er mwyn asesu sensitifrwydd sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i gynnydd pellach mewn cyfraddau llog a bydd y gwaith yn cael ei gynnwys wrth osod y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn. |

**Atodiad 2 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/2026 - Refeniw**

| | 2022/23 Cyllideb £m | 2022/23 Amcanestyniad £m | 2023/24 Cyllideb £m | 2024/5 Cyllideb £m | 2025/6 Cyllideb £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyflog gweithwyr | 30.120 | 31.553 | 31.757 | 32.940 | 34.082 |
| Costau gweithiwr eraill | | | 1.907 | 1.817 | 1.820 |
| **Cyfanswm Costau'r Gweithiwr** | **30.120** | **31.553** | **33.664** | **34.758** | **35.903** |
| **Cynnydd mewn costau gweithwyr** | | | **0.118** | **0.032** | **0.033** |
| Safleoedd | 2.901 | 3.896 | 3.237 | 3.357 | 3.529 |
| Trafnidiaeth | 1.204 | 1.204 | 1.239 | 1.177 | 1.154 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a 3ydd Parti | 5.370 | 5.842 | 5.831 | 6.285 | 5.856 |
| **Cyfanswm Gwariant Nad ydynt yn Gyflog** | **9.475** | **10.942** | **10.307** | **10.818** | **10.539** |
| **Cynnydd mewn Gwariant Nad ydynt yn Gyflog** | | | **0.088** | **0.050** | **- 0.026** |
| Ffioedd a Thaliadau/Misc. Incwm | - 0.277 | - 0.303 | - 0.262 | - 0.271 | - 0.280 |
| Incwm y grant | - 2.179 | - 2.179 | - 2.124 | - 2.124 | - 2.124 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **- 2.456** | **- 2.482** | **- 2.385** | **- 2.395** | **- 2.404** |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau Llog | **2.263** | **2.513** | **3.129** | **4.670** | **6.936** |
| Defnyddio Cronfeydd a Darpariaethau | | 3,450 | | | |
| **Gofynion y gyllideb** | **39.402** | **39.402** | **44.714** | **47.851** | **50.974** |
| **Cynnydd yn y Gyllideb** | | | 13.48% | 7.02% | 6.53% |

**Atodiad 3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/2026 - Cyfalaf**

| **Cynllun** | **2023/24 £m** | **2023/24 £m** | **2024/25 £m** |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio System Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.500 | |
| Canolfan Hyfforddi Newydd | 3.000 | 25.000 | 20.000 |
| Disodli Offer Tân | 1.430 | 1.400 | 3.550 |
| Faniau Gorsaf Amlbwrpas | 0.189 | 0.513 | 0.608 |
| Faniau Gweithdy'r Fflyd | | 0.201 | |
| Cerbydau Arbenigol | 0.150 | 0.260 | |
| Offer Arbenigol | | 0.500 | 0.500 |
| Fflyd - system newydd ar gyfer cwympiadau | 0.100 | | |
| Caledwedd TGCh | | 0.785 | |
| Ailosod Tŵr Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | 0.250 |
| Adeiladau - Gwaith Mân | 0.813 | 0.750 | 0.750 |
| **Cyfanswm 2023/24** | **6.532** | **30.159** | **25.658** |
| Treigl - Tyrau Hyfforddi | 0.375 | | |
| **Cyfanswm Treigl o 2022/23** | **0.375** | | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.907** | **30.159** | **25.658** |

## Atodiad 4 - Cyfraniadau Awdurdodau Lleol Cyfansoddol 2023/24

| Awdurdod | 2022/2023 Cyfraniad £ | Poblogaeth | Dosrannu % | 2023/24 Gofynion y Gyllideb £ | Cynydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Môn | 3,915,486 | 69,842 | 10% | 4,434,413 | 518,927 |
| Cyngor Gwynedd | 7,017,885 | 125,539 | 18% | 7,970,731 | 952,846 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,631,214 | 118,625 | 17% | 7,531,747 | 900,533 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5,381,432 | 96,198 | 14% | 6,107,810 | 726,379 |
| Cyngor Sir y Fflint | 8,813,821 | 157,626 | 22% | 10,008,001 | 1,194,181 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,652,042 | 136,419 | 19% | 8,661,525 | 1,009,483 |
| **Cyfanswm** | **39,411,879** | **704,249** | **100%** | **44,714,228** | **5,302,349** |

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **12 Rhagfyr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Canolfan Hyfforddi Newydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r diweddaraf am y gwaith a wnaed hyd yma ar gynhyrchu achos busnes manwl ar gyfer opsiwn/opsiynau canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gweithredol hanfodol i'w staff i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a diogelwch diffoddwyr tân. Nododd asesiad y Prif Swyddog Tân a gynhaliwyd yn ystod 2021 'hyfforddiant' fel maes blaenoriaeth a rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Awdurdod gynnal adolygiad llawn ar ddarparu hyfforddiant a datblygiad gweithredol yn y Gwasanaeth yn y dyfodol.

3 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol cyfredol yn y Gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli yng Ngorsafoedd Tân Dolgellau a Rhyl. Nododd hyn yr angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi a datblygu er mwyn sicrhau parodrwydd a diogelwch gweithredol, o ran y ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol. Yn benodol, bydd angen buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi newydd ar gyfer yr angen i ddarparu profiadau hyfforddiant ymarferol a throchol ar draws ystod o senarios.

4 Mae'r adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddi gweithredol yn y Gwasanaeth hefyd yn cefnogi canfyddiadau diweddar y Prif Gynghorydd Tân ac Achub adolygiad thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, sy'n cydnabod bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i efelychu amodau yn y byd go iawn er mwyn i ddiffoddwyr tân ddatblygu a gwella eu sgiliau mewn amgylchedd hyfforddi.

5 Yn dilyn cymeradwyaeth yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2022 i ddyrannu cyllideb ar gyfer datblygu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd, mae nifer o opsiynau wedi cael eu harchwilio gan dîm y prosiect. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi darn o dir addas ar gyfer lleoli'r ganolfan hyfforddi a datblygu newydd yng ngogledd Cymru.

6 Mae cam nesaf y gwaith o ddatblygu achos busnes yn cynnwys ymrwymo i gytundeb cynhwysol gyda'r tirfeddiannwr, fel y gall y diwydrwydd dyladwy gofynnol ddigwydd cyn argymell a cheisio cymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar gyfer prynu tir.

**ARGYMHELLIAD**

7 Argymhellir bod yr Aelodau:

(i) yn nodi’r cefndir ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant gan gynnwys adolygiad thematig Prif Ymgynghorydd Tân Cymru;
(ii) yn nodi bod y ddarpariaeth hyfforddiant gyfredol yn cyrraedd diwedd ei hoes;
(iii) yn cymeradwyo cynnwys cyllideb ar gyfer prynu tir o fewn cyllideb 2023/24 gan nodi y bydd hyn yn destun cymeradwyaeth ar wahân yn dilyn cwblhau diwydrwydd dyladwy; ac
(iv) yn nodi'r amserlenni sydd yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl i’r Aelodau ei ystyried.

**CEFNDIR**

8 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi 2021, cafodd y tair prif flaenoriaeth eu cyflwyno i'r Gwasanaeth gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad a’u cymeradwyo gan yr Aelodau. Roedden nhw'n cynnwys gwella argaeledd, gwella hyfforddiant a chryfhau'r strwythur corfforaethol.

9 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022 yn argymell bod cyllideb gychwynnol yn cael ei dyrannu i brosiect y ganolfan hyfforddi newydd, er mwyn cefnogi'r gwaith o wella hyfforddiant.

10 Ar ôl cael cymeradwyaeth, mae tîm prosiect y ganolfan hyfforddi newydd wedi ymgynghori â staff, gweithwyr adeiladu proffesiynol, arbenigwyr cynaliadwyedd a phensaer i ddatblygu dyluniad lefel uchel ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu newydd o fewn GTAGC. Mae hyn hefyd wedi cynnwys nodi darn o dir a gafodd ei asesu fel un sy'n addas o ran ei leoliad daearyddol a’i faint.

**GWYBODAETH**

11 Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad manwl o'i gyfleusterau hyfforddi gweithredol yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Dolgellau ac o ganlyniad daeth i'r amlwg nad ydynt yn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen i hyfforddi diffoddwyr tân sy'n gweithredu mewn gwasanaeth tân ac achub modern.

12 Er bod cyfleuster hyfforddiant tanau tai yng ngorsaf dân Dolgellau yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gweithredol, mae angen buddsoddiad sylweddol ynddo i ymestyn ei oes tymor canolig ar gyfer offer anadlu hollbwysig a hyfforddiant tactegau diffodd tân ar draws ystod o senarios y mae ein diffoddwyr tân yn eu hwynebu. Fe'i lleolir hefyd mewn ardal yng ngogledd Cymru sydd gryn bellter i'r mwyafrif o'n staff deithio yno i fynd ar gyrsiau offer anadlu.

13 Yn ystod y ddegawd ddiwethaf, bydd yr Awdurdod wedi nodi bod nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill wedi gostwng yn sylweddol. Er bod hon yn stori o lwyddiant i'r gwaith atal tân sydd wedi digwydd yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi arwain at y risg y bydd diffoddwyr tân yn cael llai o gysylltiad â'r peryglon a'r sefyllfaoedd cymhleth y maent yn debygol o'u hwynebu wrth fynychu digwyddiadau o'r fath.

14 Mae halogyddion tân hefyd yn risg sy'n bresennol yn y mwg a nwyon fflamadwy a gwenwynig a ryddheir yn ystod tanau a gall gyfrannu at ganser a chyflyrau iechyd eraill mewn diffoddwyr tân. Felly, mae angen cynnwys rheoli halogyddion tân yn y gwaith o ddylunio'r ganolfan hyfforddi a datblygu, gweithdrefnau gweithredol a diwylliant y gwasanaeth tân ac achub.

15 Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae angen i hyfforddiant a datblygiad gweithredol i'n staff mewn amgylchedd hyfforddi realistig a throchol sy'n cynnwys mesurau iechyd a diogelwch digonol, fod ar flaen y gad wrth ddylunio canolfan hyfforddi a datblygu newydd, er mwyn darparu'r cyfleusterau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer hyfforddiant a datblygiad o fewn y Gwasanaeth am y 25 mlynedd nesaf o leiaf.

16 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 17 Hydref 2022, cafodd yr argymhelliad i ddyrannu cyllideb gychwynnol i'r prosiect ei gymeradwyo, a oedd yn cynnwys yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb cynhwysol gyda thirfeddiannwr safle a oedd wedi'i asesu fel un addas o ran maint a lleoliad.

17 Ers cyfarfod yr Awdurdod, mae tir addas ar gyfer lleoli canolfan hyfforddi a datblygu wedi'i nodi ac yn dilyn sgyrsiau gydag asiant y tir, cam nesaf y prosiect fydd ymrwymo i gytundeb cynhwysol gyda pherchennog y tir. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod gynnal arolygon addasrwydd i'r safle a chais cynllunio o flaen llaw gyda'r swyddfa gynllunio leol.

18 Yn unol â'r arfer gorau ar gyfer rheoli prosiectau, yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2022, datblygwyd Dogfen Cychwyn Prosiect (DCP) gan dîm y prosiect sydd wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arwain Gwasanaeth ac aelodau o'r Pwyllgor Tir ac Eiddo. Mae'r DCP yn nodi amserlenni'r prosiect cyfan, gan gynnwys penderfyniadau a phwyntiau cymeradwyo i'r Awdurdod yn ystod oes y prosiect.

19 Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect, sy'n cynnwys ymrwymo i gytundeb cynwysoldeb tir ac arolygon safle cyn prynu yn dod i ben erbyn 31 Mawrth 2023. Yn dilyn y cam hwn, caiff canlyniadau arolygon o’r safle a chais cyn cynllunio i'r swyddfa gynllunio leol eu hadolygu a gellir cyflwyno argymhellion ar gyfer prynu safle i gyfarfod yr Awdurdod Tân ar 17 Ebrill 2023 yn ddibynnol ar y canlyniadau.

20 Felly, bydd cynnwys cyllideb i brynu tir o fis Ebrill 2023 yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24, er y gofynnir am gymeradwyaeth ffurfiol gan yr Awdurdod ar ôl cwbhlau’r gwaith diwydrwydd dyladwy.

21 Ar wahân i brynu tir, mae disgwyl i'r achos busnes manwl ar gyfer y ganolfan hyfforddi a datblygu newydd gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2023 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar gyfer craffu ymhellach arno a’i gymeradwyo bryd hynny.

22 Yn dilyn cymeradwyo cynigion yr achos busnes, bydd amserlen fanwl yn cael ei datblygu, er rhagwelir y gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod rhan gyntaf 2025 yn dilyn cais cynllunio, datblygu briff dylunio manwl a chaffael prif gontractwr.

23 Bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru a'u hysbysu ar gynnydd y prosiect wrth iddo ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol 2022/23 a bydd yn hyrwyddo diogelwch diffoddwyr tân, cefnogi parodrwydd gweithredol a sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Ariannwyd £250,000 o gronfeydd wrth gefn er mwyn datblygu achos busnes manwl ar gyfer opsiynau canolfan hyfforddi a datblygu newydd yn GTAGC. Bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer prynu tir a chostau adeiladu, pe bai'r achos busnes yn cael ei gymeradwyo. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau hyfforddiant digonnol i'w staff, a rheoli risgiau megis halogyddion. Fe wnaeth y prosiect hefyd fynd i'r afael â'r rhwymedigaeth gyfreithiol ehangach i leihau allyriadau carbon. |
| Staffio | Mae tîm a rhanddeiliaid y prosiect wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect (DCP) i gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r prosiect yn cefnogi iechyd a diogelwch a lles staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae goblygiadau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig PID. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg y DCP. |